Cyfres yr 20fed Ganrif.

Rhyddid, Gwirionedd Cariad.

Yr Ymofynydd

Cyf. 10. Rhif 1.] IONAWR, 1910. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.

Nodion y Mis.

Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.

Paul ac Iesu.

Bywyd yn y Byd a Ddaw.

Dyledswydd Rhieni mewn perthynas i Addysg Elfenol eu Plant.

Priodasau.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD

A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. P. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, **Abertillery.**

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.T., Penarfawr; D.D., Gorseinon; W.D., Dolbante Factory; J.D., Hackney Road; J.M., Blaengwynfi; G.J., Castell, Pencarreg; D.J.D., Erieville, U.D.A.; E.L., Bedlinog; E.J., Glynbynod; E.D., Llanbedr; D.D., Aberaman; J.J., Llandilo; T.T., Rock Mill; S.D., Coedparc; J.D.D., Blaengwrach; E.J., Banc, Abergorlech; D.J., Rhydfene; D.D., Gwardafolog, D.J.G., Ferndale; D.H.S., Mountain Ash; Mrs. L., Llanarth; Parch. J.W., Pantteg; T.A.J., North Dandalup; J.D., Banc Bethania; Mrs. R., Pentregwenlais; D.J., Tydwgi; Mrs. D.J T., Cribyn; R.Ll., Merthyr; H.H., Birmingham; D.M.J., Cwrtnewydd; J.D., Tylorstown; J.T., Castell-draenog; D.R.O., Garnant; J.T., Rhymney; D.J., Clydach Vale; W.J., Cefncoed; Parch. J.P.D., Pontypridd; J.D., Llanwnen.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili)

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .

Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1910. [CYF. X. RHIF 1.

AR EDYN FFYDD.

BLWYDDYN NEWYDD.

Molwn Dduw a chalon lân !
Plygwn bawb, dyrchafwn gân !
Clod a mawl i Ior y nen
Am ei flwyddyn 'nawr ar ben.

Molwn Ef am oriau'r tês,
Blana flodeu drwy ei wres ;
Am wyrddlesni llawr a llwyn,
Hardd adfywiad Ebrill mwyn.

Molwn Ef am wlaw yr haf,
Bortha'r grawn a'r blodeu braf,
Bydd ei amryw had o hyd
I ddiwallu pawb o'r byd.

Molwn Ef am ddaear las,
Ffrwyth yr ardd ac ŷd y maes ;
Molwn bawb, heb un ar goll,
Bwrdd yr Arglwydd ydynt oll.

Molwn am yr eira gwyn
Syrthia i lawr ar fro a bryn ;
Am freuddwydion geni sydd
'Nawr yn deor yn y pridd.

Am Ei flwyddyn 'nawr ar ben,
Molwn, molwn, Ior y nen !
Rhoddwn bawb mewn melus gân
Glod a mawl i'n Harglwydd glân.

Cf. E. H. Hymnal, 458.

EIN TAD NEFOL, deuwn ger Dy fron i ddiolch am gael gweled blwyddyn newydd eto. Ceisiwn Dy fendith. Profed y flwyddyn yn un newydd mewn gwir, yn dwyn meddyliau gwell, a phenderfyniadau gwell, a bywyd gwell. Os dwg i ni dristwch a phoen, os dwg oddi arnom iechyd a chyfeillion, helper ni er hyny i'w iawn ddefnyddio. Bydded yn ein hanes yn flwyddyn gofiadwy am amcanion caredig ac am lawer o waith da. Galluoger ni mewn yspryd gostyngedig i droi holl droion bywyd yn gyfleusderau gras, fel ag y gallwn godi uwchlaw profedigaethau amser i awyrgylch y byd ysprydol, tra'n teithio yma yn nyffryn y cysgodau. Amen.

NODION Y MIS.

BLWYDDYN NEWYDD DDA yn llawn o'r bendithion goreu i holl ddarllenwyr YR YMOFYNYDD.

Gyda'r flwyddyn bresenol dechreuwn ar ddegfed flwyddyn ein golygiaeth o'r YMOFYNYDD, a chredwn fod deng mlynedd yn gyfnod digon hir i'r un golygwyr barhau yn eu gwaith. Gobeithiwn y gwna'r pwyllgor heb fod yn faith i edrych allan am un wna gario'r gwaith yn y blaen, ac hyderwn fod llwyddiant goreu'r YMOFYNYDD yn y dyfodol.

Gwnaethom ein goreu yn ystod y flwyddyn aeth heibio, ond gwyddom ein bod yn mhell o fod yn berffaith, nac i fod i fyny a hyd y nod ein disgwyliadau ein hunain a'n cyfeillion. Teimlwn yn ddiolchgar iawn am gymeradwyaeth a chefnogaeth ein noddwyr yn ystod y flwyddyn. Heb help cynyrchion llenyddol goreu ein cyfeillion, a chydweithrediad dosparthwyr a derbynwyr, darfuasai am danom er ys llawer dydd. I'r oll dymunwn yn awr gyflwyno ein diolchgarwch mwyaf diffuant. Disgwyliwn oddiwrthynt yn hyderus, yr un gefnogaeth er cyfoethogi bwrdd llenyddol YR YMOFYNYDD yn 1910.

Yn y blynyddoedd diweddar hyn y mae genym amryw gyfeillion haelionus a charedig yn talu am gopiau i'w danfon yn rhad i Lyfrgelloedd a Darllenfeydd cyhoeddus ein gwlad. Eiddunwn nid yn unig am barhad o'u caredigrwydd hwy, ond dymunem weled y drysorfa hon yn cynyddu. Y mae y ffordd hon yn un o'r rhai mwyaf effeithiol er gwasgaru egwyddorion y grefydd ryddfrydig.

Carem alw sylw hen fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin ac yn wir bawb a deimlant ddyddordeb yn yr hen sefydliad uchod, at gyfrol werthfawr sydd newydd ei chyhoeddi dan olygiaeth Dr. Pan Jones. Gelwir y gyfrol "Oriel Coleg Caerfyrddin," ac nid oes genym ond y gymeradwyaeth uchelaf i'r gwaith. Cynwysa hanes yr holl fyfyrwyr fu yn y Coleg o 1796 hyd 1899, yn nghyd a 271 o ddarluniau. Ysgrifenwyd bywgraffiadau y myfyrwyr Undodaidd gan y Prifathraw presenol, Walter J. Evans, Ysw., M.A. Pe buasem mewn ysbryd beirniadol gallasem nodi ychydig frychau bychain yma a thraw, a gwell yn ein barn fuasai pe bae ambell i frawddeg heb ei hysgrifenu. Nid ydyw rhai'n ond pethau bychain, mewn cyfrol sydd mor llawn o ragoriaethau. Argraffwyd a chyhoeddwyd yr "Oriel" yn Swyddfa'r *Tyst*, Merthyr Tydfil, ac eglur ydyw nad oes llafur na thraul wedi ei arbed yn ei dygiad allan. Eiddunwn i'r "Oriel" gylchrediad helaeth.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Pennod II.—Parhad.

BYDDAI llyfrau'r Beibl ydynt ar goll yn drysor anmhrisiadwy, pe ceid gafael ynddynt. Ymddengys fod tuag un-ar-bymtheg o lyfrau yn eisiau o'r Hen Destament, llyfrau a ddylasent fod yno, llyfrau y cyfeirir attynt ac a ddyfynir yn y Beibl fel pe byddent yn lyfrau a berthynant mewn gwirionedd iddo. Enwir ynddo Lyfr Jasher, Llyfr Nathan a Gad, Llyfr Rhyfeloedd yr Arglwydd, Llyfr Ahijah ac Iddo, Damhegion a Thraethawd Solomon ar Hanes Naturiol, Geiriau'r Gweledyddion, Proffwydoliaeth Enoc, ac amryw eraill; ac mewn rhai manau rhoddir dyfyniadau helaeth o honynt megis galarnad Dafydd am Saul a Jonathan. Dyma'r hyn sy'n ein taro gyntaf ar ol ymchwiliad brysiog i gynwysiad y Beibl; ei fod yn cynwys darnau o ddwy lenyddiaeth fawr—llenyddiaeth yr Iuddewon a llenyddiaeth yr Eglwys Gristionogol yn moreuddydd ei hanes.

Cymerwch eto yr awdwyr. Mae lliaws o'r llyfrau na wyddis pwy a'u hysgrifenodd; a phriodolir eraill, megis y Pentateuch, i bobl y gwyddom na ddarfu iddynt erioed eu hysgrifenu, am fod ynddynt gyfeiriadau at ddigwyddiadau a gymerasant le ar ol i'r bobl hyny farw. Nis gallwn byth benderfynu pwy a ysgrifenodd Lyfr y Barnwyr a Joshua, y Pum' Llyfr gysylltir fynychaf ag enw Moses, Llyfr Samuel, Llyfr Job; ac am rai o honynt nid oes genym y ddirnadaeth leiaf. O barthed i'r awdwyr eraill cynyrchiolant bob dosbarth mewn cymdeithas o Ddafydd Frenin hyd at Amos y bugail—ceir gwragedd, ceir beirdd, milwyr, cerddorion, pysgodwyr, gwladweinwyr, physigwyr, dynion o bob crefft a phob safle yn mhlith y sawl fuont yn ysgrifenu ac yn cyfranu at y casgliad rhyfeddol hwn. Nid oedd y gwahanol ysgrifenwyr hyn yn oesi ac yn ysgrifenu yr un pryd. Oesent yn ystod cyfnod a ymestynai am dros ddeuddeg cant o flynyddau.

Ffyna y syniadau mwyaf cyfeiliornus gyda golwg ar yr amser yr ysgrifenwyd hwynt. Y farn gynt oedd i bum' llyfr blaenaf yr Hen Destament gael eu hysgrifenu gan Moses yn agos i bymtheg cant o flynyddau cyn Crist. Ond fel mae gwybodaeth yn amlhau mae y farn hon yn gyflym yn colli tir. Gwelir yn awr nad oedd yn bosibl i ranau helaeth o'r llyfrau hyny i gael eu hysgrifenu na'u trefnu hyd yn mhell ar ol marwolaeth Moses, digon tebyg bedwar can mlynedd ar ol ei farwolaeth. Ni ysgrifenodd Moses hanes ei farwolaeth ei

hunan, ni osododd Moses yn y Pentateuch enwau lleoedd nad oeddynt mewn bodolaeth pan ysgrifenai ef; ac ni soniodd am enwau pwysau a mesurau na wyddid dim am danynt y pryd hwnw, ac ni chyfeiriodd at ddigwyddiadau oeddynt wedi myned heibio ac yn hollol wybyddus fel digwyddiadau a gymerasent le ar ol ei farwolaeth, ac ni ddangosodd unrhyw wybodaeth fanol am deithi gwlad nad oedd efe i sangu arni. Digon tebyg mai ychydig iawn ysgrifenodd Moses, dim ond y Deg Gorchymyn, Can Miriam, ac un neu ddau o ymadroddion eraill. Mae yn debygol i'r 'Ddeddf' fel y gelwir y rhan hon o'r Beibl, i gael ei gosod wrth ei gilydd, mewn rhyw ffurf neu gilydd, gyntaf yn amser Samuel, feallai gan Samuel; ond yn y ffurf y ceir hi yn awr nid oes gwybodaeth am dani hyd o fewn i saith can mlynedd cyn Crist, yn nheyrnasiad Manasseh. Yr oedd chwedl Creadigaeth y byd yn Genesis, yr hanesion am Abraham, Isaac a Jacob, wedi disgyn o enau i enau am gyfnod maith, ac ymestyna yn ddiamau yn ol yn mhell cyn amser Moses. Yn wir, mae yn ddigon posibl eu bod yn bodoli mewn ysgrifau fel cofnodion y teulu, ond mae'n sicr na chasglwyd mo honynt i'w ffurf bresenol hyd yn gydmarol ddiweddar yn hanes yr Iuddewon.

Fel y gwyddoch, cyfieithad o ysgrifau Hebreig a Groegaidd yw ein Beibl ni. Ond nid y cyfieithiad cyntaf yw yr hwn a alwn ni heddyw y Cyfieithad Awdurdodedig. Efe yw yr olaf ond un o'r gyfres hono gychwynodd gyda gwaith Tyndall, Coverdale, a'u cyd-oeswyr, a'r hwn a ddilynwyd gan Feibl Geneva, Beibl yr Esgobion Beibl Douay, yn nghyd a Beiblau eraill, hyd nes o'r diwedd, yn y flwyddyn 1611, o dan nawdd y Brenin Iago I., y cyhoeddwyd y Cyfieithad Seisnig yr ydym ni yn fwyaf cynefin ag ef. William Salesbury, yn ol pob hanes, oedd y cyntaf i gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg, er fod yna draddodiad i Thomas Llewelyn o Rhigos wneud cyfieithad godidog yn agos i ddeng mlynedd ar hugain cyn i gyfieithad Salesbur y ymddangos. Dywedir mai mewn ystafell gudd mewn congl neillduedig yn ardal Llansanan, rhag cael ei aflonyddu gan ysbiwyr dideimlad, y bu yr aiddgar hwn yn llafurio er dwyn ei waith ben. Ymddengys i Salesbury gael cymhorth gwerthfawr yn ei orchwyl caled gan yr esgob Richard Davies, a chan Thomas Huet, cantor yn eglwys gadeiriol Ty Ddewi. Ymddangosodd y cyfieithad hwn yn 1567. Gan fod iaith y cyfieithad hwn yn anystwyth ac i fesur yn anneallad wy gan y werin, ymgymerodd y gwr enwog, William Morgan, yn unigedd didwrw Llanrhaiadr-yn-Mochnant, lle yr oedd ar y pryd yn offeiriad, a gwneud cyfieithad arall. Daeth allan o'r wasg yn 1588. Yn mhen ysbaid ar ol ymddangosiad y Beibl hwn cywirwyd ychydig o hono gan yr Esgob Parry o Lanelwy, a Dr. John Davies, o Fallwyd, a dyna'r cyfieithad sydd wedi aros yn arferedig yn ein plith ni, y Cymru, hyd y dydd hwn.

Yn y fan hon carwn alw eich sylw at ddau neu dri o neillduolion perthynol i'r Beibl Seisnig. Ag agor y llyfr chwi welwch ei fod wedi ei ranu nid yn unig yn llyfrau, ond fod y llyfrau hyn hefyd wedi eu rhanu yn bennodau ac adnodau. A ydyw y pennodau a'r adnodau

hyn yn rau o'r gwreiddiol? Nac ydynt. Dylem gofio hyn, oblegid mae weithiau yn bwnc o bwys mawr. Nid oes bennodau nac adnodau yn yr Hebraeg a'r Groeg, ond mae pob llyfr yn un cyfanwaith heb raniadau o unrhyw fath, heb brif lythyrenau nac atal-nodau. Gwnaed y rhaniadau gan Henry Stephens, argraffydd ac ysgolor mawr ei oes, ac argraffwyd y Beibl oedd yn cynwys y rhaniadau hyn yn 1551. Mae y rhaniadau, er eu bod yn aml yn hynod gyfleus, er hyny yn peri i'r ystyr i fod yn aneglur, ac y maent hefyd yn tori y cysylltiad. Mae y rhanu yn adnodau wedi bod yn ffynonell ffrwythlon o ddadleuon brwd ac wedi arwain i deimladau anymunol. Mae yr adnodau wedi eu trefnu yn aml mor ddiamcan a phe rhenid y llyfr yn adranau haner modfedd o hyd heb un sylw yn y byd i'r ystyr.

Nodwedd arall perthynol i'r Beibl yw cynwysiad y penodau a'r teitlau ar ben y tudalenau yn egluro, yn marn y cyfieithwyr, feddwl yr awdwyr. Nid ä yr un o'r rhai'n yn mhellach yn ol na 1611, oddigerth y Salmau. Ni pherthynant i'r Beibl o gwbl. Dychmygol hollol yw lliaws o honynt, ac hollol anghywir. Mewn gwirionedd, nid ydynt yn ddim amgen nag ymgais i esbonio'r Bebl yn unol a iawnffyddiaeth 1611. Y pethau hyn sydd wedi peru i'r serch-gân odidog, Cân y Caniadau, i gael ei chamddeall a'i gwawdio gymaint, ac wedi troi gwers ddynol brydferth yn *allegori* i ddangos perthynas Crist a'i eglwys. Gwrthun hollol yw lluaws o'r teitlau hyn yn y Pentateuch a'r Prophwydi.

Wrth ymdrin â'r Beibl, gan hyny, bydded i ni gofio nad yw yr ysgrifenwyr gwreiddiol yn gyfrifol am y cynhwysiadau hyn yn fwy nag ydynt yn gyfrifol am y penodau a'r adnodau. Rhaid i ni gofio un peth arall. Caniatawn am foment fod yr ysgrifau gwreiddiol, yn Hebraeg a Groeg, yn air anffaeledig Duw. Eto wrth agor ein Beibl, nis medrwn deimlo ein bod yn dal yn ein llaw gyfieithad anffaeledig o'r gwaith anffaeledig hwn. Ni hona neb fod y cyfieithwyr yn anffaeledig. Nid oes genym ddim ond barn y cyfieithwyr gyda golwg ar yr hyn olygai yr ysgrifenwyr gwreiddiol, wedi ei drosglwyddo, goreu y gallent, i iaith arall. Ond erbyn hyn yr ydym yn gwybod fod lluaws o'r ysgrifau Hebraeg a Groeg sydd ar glawr wedi eu copio o ffynonau eraill. A ddiogelyd y copiwyr yn anffaeledig rhag gwneud camsyniadau? Pe byddai y cofnodion gwreiddiol yn anffaeledig, byddai yn ofynol cael gwyrth arbenig a pharhaol i gadw y cofnodion hyn trwy ganrifoedd o gyfnewidiadau, mewn traddodiadau, mewn iaith, mewn ysgrifenwyr ac mewn argraffwyr. Ni cheir dau gyfieithad yn gywir yr un fath. Hyd yn nod yn y Cyfieithad Awdurdodedig, a wnaed gan yr ysgolheigion goreu yn y byd, gwahaniaethai cyfieithwyr America a chyfieithwyr y wlad hon yn fawr iawn y naill oddiwrth y llall gyda golwg ar ystyron geiriau a brawddegau neillduol. Mae y gwahaniaethau hyn mor bwysig fel y bu raid cael atodiad er eu gosod hwynt i fewn. Caniatawn fod Duw dair mil a haner o flynyddau'n ol wedi llefaru ychydig frawddegau wrth Moses, pan yn siarad ag ef wyneb yn wyneb, nis gellir dirnad am un ddyfais a allasai ein sicrhau fod y geiriau a lefarodd Efe yn

cael eu trosglwyddo yn hollol gywir i ni yn yr oes hon. Yr ydym wedi derbyn y geiriau hyn trwy gyfryngau, ydynt ar y cyfan yn gyfryw y gellir ymddibynu arnynt, ond nid yn hollol felly, yn enwedig gyda manylion yr hanes, a thrwy ddynion mor agored i wneud camsyniadau a ninau. Credwn yn hawdd nad oes dim hanfodol wedi myned ar goll; ond nis gallwn gredu fod yr oll a gadwyd wedi ei gadw heb ynddo un camsyniad. Er hyny, y fath drysor yw ein Beibl, gyda'i holl anmherffeithderau. Mae hyd y nod ranau mwyaf diwerth o'r Pentateuch yn llawn o addysg foesol ac ysbrydol sydd o werth tragwyddol. Er gwaethaf eu haneglurder a'r esboniad ofergoelus a roddir yn aml arnynt, mae yr Ysgrythyrau wedi gweithio yn ardderchog yn nghyfeiriad y bywyd a'r duwioldeb uchaf. Mae lluaws na fedrant ddefnyddio'r Beibl gyda'r dybenion goreu wedi ei gael, er hyny, yn fara y bywyd i'w heneidiau. Mae megis yr awyr a anadlwn: gallwn ei anmhuro, ond nis gallwn fyw hebddi. Mae megis peilliaid gwenith: gallwn ei grasu yn wael, a gwneud o hono nid bara maethlon, ond rhywbeth anghymwys i'r cyfansoddiad dynol: ond hyd yn nod fel toes trwm ac anmhreuliadwy y mae yn cynal bywyd. Mae pobl am hir amser wedi cam-ddeall a cham-gymhwyso aml i ran o'r Beibl: ond pa gymaint o'r hyn sydd oreu yn ngharitor y werin, pa gymaint o serch at onestrwydd a di-dwylledd, pa gymaint o barch at burdeb y teulu, o frwdiasedd dros freiniau goreu dyn, ellir olrhain i wybodaeth gynefin ein tadau o lythyren y Beibl! Ac os yw'r Beibl wedi arfer cymaint o ddylanwad ar ddynion a wnaethant gam-ddefnydd o hono lawer pryd, gymaint yn fwy effeithiol fydd ei ddylanwad pan y defnyddir ef yn mhobman yn ddeallgar gan ddynion ydynt yn fyw i'r gwahaniaeth tragywyddol rhwng y lythyren a'r ysbryd.

Y BEIBL.

"Hic liber est in quo quaesit sua dogmata quisque;
Invenit, et pariter dogmata quisque sua."
—*Wererfels.*

"Here all alike for their pet dogmas look,
And all alike too find them in this book."

"Hwn ydyw'r llyfr lle ceisia pob rhyw ddyn
Yr athrawiaethau gred efe ei hun;
A hwn yw'r llyfr lle ceir, O! ryfedd helynt!
Yr athrawiaethau geisia pawb am danynt!"

PAUL AC IESU.

Fel y mae'r Forwyn Fair wedi cymeryd lle Iesu yn nuwinyddiaeth y Pabyddion, ac Iesu wedi ei osod ar yr orsedd yn lle ei Dad yn nuwinyddiaeth rhai o'r enwadau Protestanaidd,* ymddengys i mi fod yna duedd er ys peth amser bellach, i osod yr apostol Paul o flaen Iesu ac i ysgrifenu Paul ac Iesu yn lle Iesu a Phaul. O'r braidd y credwn y carai Paul hyny pe gallai wybod a llefaru heddyw. Iddo ef yr oedd Iesu mewn ffordd yn bobpeth—yn ffynonell ei holl ysprydoliaeth. I mi y mae yn syndod o'r mwyaf i feddwl fod dynion yn gosod Iesu yn ail i Paul, hyny yw, gwnant Paul yn sylfaen eu Cristnogaeth, yn fwy felly nag Iesu. "Oni bai Paul" meddant "ni fuasai Cristnogaeth byth yn ddim amgen na sect fechan o Iuddewon, cyfyngedig i wlad Canaan. Buasai wedi diffodd er ys llawer dydd oni bai am Paul. Ni allasai crefydd fel y dysgwyd hi gan Iesu byth ddyfod yn grefydd yr ymerodraeth Rufeinig ac ni chawsai byth dderbyniad swyddogol gan yr ymerawdwr Cystenyn Fawr." Gyda phob dyledus barch, dymunwn ateb mai nid crefydd fu ar ei mantais oherwydd dychweliad Cystenyn † a'i filwyr. Collodd crefydd ei symlrwydd cyntefig yn y wisg gafodd ganddynt hwy. Ond gadawn Cystenyn ac awn yn nes at bwnc ein testun.

Gwir ddigon mai Paul yn benaf oedd y cenadwr mawr a gariodd y genadwri ar draws y gwledydd, ond cenadwri Iesu oedd y genadwri, efe oedd yr Eliseus a gododd i fyny'r fantell a syrthiasai o ddwylaw Iesu. Iesu oedd pwnc penaf pregeth Paul, ac "at y nod am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu" y dymunai efe arwain ei holl wrandawyr. Gwir ddigon hefyd iddo osod gwedd newydd ar y Gristnogaeth a bregethai, ac iddo drwy hyny o bosibl ei gwneuthur yn fwy derbyniol gan rai. Po fwyaf o liw Iuddewaeth fyddai ar ei bregeth, mwyaf derbyniol fyddai i'r Iuddew yn naturiol; po fwyaf o ol Gamaliel ac o athroniaeth Groeg fyddai arni, rhwyddaf i gyd y gellid disgwyl iddi gael derbyniad gan y Groegwr ac wrth bob tebyg gan y Rhufeinwr hefyd; ond golyga hyny'n amlwg nad Cristnogaeth Iesu yn gyfangwbl oedd Cristnogaeth Paul. Pwnc arall a phwnc teilwng iawn o sylw yw, a oedd ei Gristionogaeth yn well lle'r oedd yn gwahaniaethu; a oedd yn burach ac yn nes at y gwirionedd tragwyddol?

Cyn iddo ddyfod yn Gristion yr oedd Paul yn Iuddew, a serch i Saul yr erlidiwr gael troedigaeth hollol a dyfod yn Paul, apostol Iesu Grist, eto mae'n amlwg i lawer o'r hen grefydd, yn ogystal a llawer o olion yr hyn a ddysgodd wrth draed Gamaliel ac yn ysgolion Tarsus lynu wrtho drwy ei oes. Beth yn fwy naturiol? Onid yw efe ei hunan yn awgrymu cymaint pan y dywed (2 Cor. 4 : 7), Eithr y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd. Fel mae'r afon yn dwyn ynddi ei hunan olion yr holl diroedd y dylifodd ar hyd-ddynt o ffynon ei tharddiad yn nghesail y mynydd hyd

---

* O leiaf y mae'r pregethau fod y Crist wedi marw yn ei le yn tueddu i greu y fath anwyldeb tuag ato yn mynwes y Cristion, fel ag i godi cwmwl rhyngddo a'i Dad, ac i beri iddo ei anwybyddu a'i anghofio.

† Yn ol yr hanes, fe welodd Cystenyn Fawr mewn gweledigaeth faner yn yr wybren ac arni lun croes gyda'r geiriau Groeg hyn—*En touto nika*, yr hyn o'i gyfieithu yw, "Trwy hon gorchfyga"; a dywedir mai hyn fu'n achos ei ddychweliad. Mae'n ddigon tebyg fod mwyafrif ei filwyr yn Gristnogion yn flaenorol.

ei hymarllwysiad yn y mor ; felly yn gyffelyb y mae pob dyn yn dwyn yn nghyfansoddiad ei feddwl olion yr holl ddylanwadau y mae wedi bod tanynt drwy ei oes. Pan hauodd Iesu had ei deyrnas ar y dechreu, yr oedd yn beth tra gwahanol i'r hyn amlygwyd yn ddiweddarach yn mywyd hyd y nod ei ddysgyblion cyntaf. Yr un oedd yr had, ond ceir fod yna wahaniaeth yn naturiol yn yr amlygiad o hono yn mhob un o'r dysgyblion, hyd y nod yn Petr, Iago, ac Ioan. Gwyrodd Paul oddiwrth symlrwydd crefydd Iesu, megys ag y gwyrodd yr Eglwys drachefn o genedlaeth i genedlaeth oddiwrth Gristnogaeth Paul. Nid ydym wrth ddywedyd hyn ddim am foment am ddibrisio'r gwaith wnaeth Paul, cydnabyddir yn galonog ei fod yn ardderchog dda, ac yn teilyngu'r ganmoliaeth uwchaf ; ond eto os am gael Cristnogaeth yn ei symlrwydd cyntefig, rhaid ini fyned yn ol a'i geisio yn addysg Iesu ei hunan. Y mae yna ystyr bwysig yn y waedd a glywn ni mor fynych heddyw—Yn ol at Iesu.

Rhaid yw myned y tu ol i'r addysgiadau a geir yn nghredoau'r eglwysi, y rhai, er y tybir eu bod yn sylfaenedig ar eiddo Paul yn yr epistolau, nad ydynt mewn gwirionedd, y mwyaf poblogaidd o honynt, ond casgliadau oddiwrth ychydig o ymadroddion tywyll a dyrys o'i eiddo, ac felly yn ddim amgen nag adsain o bell o honynt* ; a rhaid yw myned y tu ol i Paul ei hunan, gyda'i drafodaeth ddysgedig ar rai o'r pynciau dyfnion hyny sydd wedi meddianu a blino meddyliau rhai o ddynion goreu a doethaf yr oesau,—pynciau sydd wedi bod yn achlysur ugeiniau o ddadleuon chwerwon—dadleuon rai, sydd wedi bod yn warth a chywilydd yr oesau, ac wedi rhanu'r eglwysi yn sectau bron dirif, pynciau, lawer o honynt, sydd tuhwnt i ddirnadaeth y bobl gyffredin, ac a addefir gan bawb bron nad yw yn angenrheidiol cael dirnadaeth gywir o honynt o gwbl er mwyn iachawdwriaeth ; a phynciau, sylwer ar hyn, nad ydynt yn nes i gael penderfyniad arnynt heddyw na phan gychwynwyd dadleu arnynt gyntaf ; ac eto i gyd y mae crefydd Paul fel yr awgrymasom yn barod yn odidog ragorol, fel y gellir deall ond darllen 1 Cor. XII ; Rhuf. XII, XIII &c. Nid yn nghylch ei grefydd y mae amheuaeth, y mae hono yn reit iach ; ond yn nghylch ei dduwinyddiaeth. Ni ddylid byth anghofio mai nid crefydd yw duwinyddiaeth ; ond opiniwn dynion am grefydd. Yr un yw crefydd bob amser ac yn mhob lle, ac yn gorwedd wrth wraidd pob ffurf o dduwinyddiaeth. Fel y dywedodd Theodore Parker, nid oes ond un grefydd, megys nad oes ond un mor, er iddo gael ei ranu dan wahanol enwau ar y map,—Atlantic, Pacific, Mediterranean, &c. Pan y mae Paul yn duwinydda, y mae'n esgyn mewn ffordd i faes newydd, maes y deall a'r rheswm, a chyda'i fod yn dechreu ymresymu ac athronyddu y mae'n agor y drws yn union i wahaniaeth barn, ac ar unwaith yn tueddu i arwain rhai ar gyfeiliorn.

I gael gafael ar yr Iesu gwirioneddol, Iesu hanes, yr Iesu fu'n adrodd ei ddamegion swynol, ac yn traddodi ei bregethau rhyfeddol a'i wynfydau cysurlawn, ar fryniau a dyffrynoedd, yn mhentrefi a dinasoedd Judea a Galilea, rhaid myned tu ol i Paul. Cofier na welodd Paul erioed Iesu yn y cnawd ; a rhaid myned nid yn unig tu ol i Paul a'i epistolau ond hefyd y tu ol i Petr ac Iago ac Ioan, ac yn enwedig y tu ol iddynt fel y cawn hwy yn yr Efengylau. Amheuir gan rai a ellir gwneuthur hyny, nad yw'r defnyddiau ddim genym. Gwyddom gymaint a hyn o leiaf, oddiwrth yr efengylau eu hunain, fod yr apostolion yn fynych yn camddeall amcan cenadwri Iesu, a'u bod yn edrych ar bethau oddiar

* Rhydd y geiriau a ganlyn awgrym am yr awthrawiaethau lle llithrodd Paul oddiwrth symlrwydd addysg Iesu—Haeddiant, Cyfiawnhad, Sanctéiddhad, Arfaeth, Etholedigaeth &c. Darllener hefyd Phil. 3 : 2 ; 1 Tim 1 : 20.

safle wahanol iawn i'r hyn wnaethai efe. Fe ymddengys cenadwri Iesu yn mhell uwchlaw cyrhaedd dychymyg y gore o'r dysgyblion, yn newyddbeth mor hollol fel nad oedd ganddynt fawr amgyffred am ei natur. Yr oedd dylanwad eu hamgylchfyd bore, a'u dygiad i fyny wedi bod yn gyfryw ag i ffurfio mantell ddu, dew, o ragfarn, fel ag i'w rhwystro yn effeithiol i ddyfod i adnabyddiaeth gywir o'r hyn oedd Iesu, nac i gael dealldwriaeth o'i neges i'r byd. Dysgwyl yr oeddynt hwy, fel yr oedd y genedl wedi dysgwyl am ganrifoedd, am gyflawniad yr addewidion tybiedig a wnaed i'w tadau, i Abraham, i Isaac, ac i Jacob. Awgrymir hwy gan Paul (Rhuf. 9 : 4.) "Y rhai sydd Israeliaid; eiddo y rhai yw y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfamodau, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion." Dyna awgrym o'r hyn ddysgwyliai'r Iuddew, a'r hyn ddysgwyliai'r dysgyblion oddiwrth y Messeia hir ddysgwyliedig pan ddelai. Ac yr oedd yr argyhoeddiad yn raddol gynyddu fod y Messeia wedi dod, ac mai Iesu oedd hwnw. Meddai'r wraig o Samaria, "Deuwch, gwelwch ddyn, yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wnaethum: Onid hwn yw 'y Crist'? hyny yw *Y Messeia.** A thrachefn, ychwanegir gan Paul (Rhuf. 9 : 5.) "Eiddo y rhai yw y tadau, ac o'r rhai yr hanodd Crist yn ol y cnawd, yr hwn sydd uwchlaw pawb. Bendigedig fyddo Duw yn oes oesoedd.†" Daearol oedd gwaith y Messeia i fod yn eu tyb hwy; teyrnas ddaearol, brenin daearol, ddisgwylient hwy, un fuasai'n dymchwelyd iau ormesol pobl Rhufain, ac yn hyrddio'r Rhufeinwr a'i giwaid anrasol allan o'r wlad, ac yn eu dyrchu hwy, ffafr ddynion y Goruchaf, i'r prif leoedd yn y deyrnas. Er mwyn sylweddoli'r dysgwyliad hwn ac i sefydlu'r deyrnas hon y torwyd ymaith glust Malchus, gwas yr archoffeiriad; i geisio prysuro Iesu i gymeryd meddiant o'r deyrnas, dyna pam yn fwy na thebyg, ac nid er mwyn y deg-ar-hugain arian, y bradychodd Judas ei feistr‡; ac er mwyn rhoddi ychydig o oleuni newydd i Petr, a thrwyddo ef yn ddiweddarach i'w wrandawyr, y gollyngwyd y llenllian fawr i waered o'r nef (Actau 10 : 11.) Fe ddysgodd Petr y pryd hwn un o wersi pwysicaf ei fywyd, pwysig iddo ef a phwysig i'r byd:—Yr wyf yn deall mewn gwirionedd nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb, ond yn mhob cenedl y neb sydd yn ei ofni Ef ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo Ef." Pan ddeuwn ni ar draws ymadroddion yn yr efengylau sydd yn amlwg yn uwch ac yn groes i'r syniadau a'r dysgwyliadau a goleddid gan y dysgyblion, gallwn gasgluyn naturiol ein bod wrth lygad y ffynon, ac heb fod yn mhell oddiwrth Iesu ei hunan.

Mewn llyfr newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Proff. Meyer ar "Iesu neu Paul," addefir mai Iesu arweiniodd ddynolryw at Dduw fel Tad; ond ar yr un pryd fe honir mai Paul yn benaf a roddodd y ffurf hono ar Gristionogaeth, yr hon yn unig, er ei bod wedi achosi gofid a thrafferth diderfyn mewn llawer ffordd yn yr eglwysi o'r pryd hwnw hyd heddyw, a brofodd yn effeithiol i alluogi lledaeniad addysg Iesu. Hyny yw, dybiwn, i ddefnyddio ymadrodd cyffredin, fe drodd Paul y plufyn, nid bob amser yn ymwybodol fe allai, i ateb lliw'r dwfr. Amcan mawr Paul, a braidd y gallwn ei feio am ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn, oedd enill pobl at Grist. Dyma ei eiriau ef ei hunan (1 Cor. 9 : 22) "Mi a ymwnaethum yn bob peth i bawb fel y gallwn yn hollol gadw rhai."

---

* Gair Groeg yw "Crist" a chyfieithiad o'r gair Hebraeg "Messeia."

† Gweler ymyl y ddalen yn y Cyfieithad Diwygiedig.

‡ Ai nid tebyg fod Judas wedi clywed geiriau Iesu ei hunan (Mat. 26 : 53) "A ydwyt ti'n tybied nas gallaf yr awrhon ddeisyf ar fy Nhad, ac Efe a rydd yn y fan fwy na deuddeg lleng o angylion?

Ond er mwyn help i ddeall y sefyllfa nid anfuddiol fydd ini gofio fod cenedlaeth, neu feallai ddwy wedi myned heibio ar ol y croeshoeliad, cyn i'r efengylau gael eu hysgrifenu—40 neu 50 neu 60 mlynedd dyweder—ac yn ystod yr amser hwnw efengyl draddodiadol a bregethid, y goreu y gallai'r pregethwr gofio, ond byddai yn naturiol yn amrywio mwy neu lai o eneu pob un, ac o'r un geneu yn fwy na thebyg o flwyddyn i flwyddyn. Fel hyny byddai ansawdd feddyliol yr eglwysi yn newid, newid o hyd, a'r ffrydiau o ddylanwad yn dylifo i fewn o lawer cyfeiriad. Fel yr awgrymwyd yn barod, dyna'r Iuddew dychweledig gyda'i syniadau am y Messeia; dyna Paul a'i athroniaeth—cofier fod epistolau Paul yn hynach na'r efengylau [fe ddywedir fod ol meddwl Paul hyd y nod ar Marc yr hynaf o honynt]: a thrachefn dyna Ioan y diweddaf o'r Efengylwyr, gyda'i *Logos* (y Gair) yn adsain o Philo o Alexandria, ac mewn ystyr neullduol o'r Gnosticiaid feallai hefyd. Nid rhyfedd ein bod yn cael mwy fwy o feddwl yr eglwys a llai o feddwl yr Iesu gyda threigliad y blynyddoedd; a'r gofyniad yn ymgynyg ini weithiau fydd, Ai eiddo Iesu yw'r ymadrodd hwn neu'r ymadrodd arall? Ambell waith byddwn yn gofyn, Nid a ddarfu i Iesu lefaru'r geiriau, ond a ydyw'r geiriau yn wir? Pan fyddaf yn darllen y fath eiriau a hyn—Myfi yw y Wir Winwydden, Myfi yw Goleuni y byd; yr wyf yn pryderu ac yn gofyn, Beth gaf fi feddwl? Nid wyf am foment yn ameu gwirionedd y geiriau, ond teimlaf anhawsder i feddwl y gallai'r gostyngedig Iesu ddefnyddio geiriau am dano ei hunan a ymddangosant, a dywedyd y lleiaf, dipyn yn chwyddedig. Byddent yn chwyddedig o eneu rhywun arall yn sicr, a thueddaf i gredu mai nid llais Iesu ond llais yr Eglwys a glywaf ynddynt.*

Yr oedd Mair gynt yn wylo am ddwyn o honynt ei Harglwydd ymaith. Pan bentyrodd yr Eglwys y fath gruglwyth o ddychmygion amherthynasol, dygodd hithau yr Arglwydd ymaith, nes gorfu iddi edrych arno drwy niwl oedd yn tewychu o flwyddyn i flwyddyn ac o oes i oes. Yn wir aeth y dyn Iesu i golli mor llwyr yn nghanol y cymysgedd breuddwydiol fel y diflanodd, fel y mae'n rhyfedd adrodd, hyd y nod ei enw allan o lenyddiaeth y drydedd a'r bedwaredd ganrif. Ag ystyried hyn nid rhyfedd feallai fod rhai heddyw yn ameu a fu erioed y fath ddyn. Am hyny y dywedwn eto, rhaid symud ymaith y niwl, rhaid myned y tu cefn i'r cymysgedd, y tu cefn i holl chwedloniaeth yr oesau, i Fesseia-ddyn yr Iuddew, i Ail-ddyn Paul, Logos-ddyn Ioan, a Duw-ddyn credoau ystrydebedig yr eglwysi, er ein galluogi i ddyfod yn agosach at yr Iesu gwirioneddol. Eto i gyd y mae'r geiriau hyn un ac oll yn dystiolaethau teilwng, os nid i sylweddolrwydd yr hyn awgrymir ynddynt, yn sicr i fawredd ac urddas cymeriad Iesu, a phrydferthwch dihafal ei fywyd yn ngolwg ei ganlynwyr. Mae'n rhaid fod yna rywbeth rhyfedd o swynol yn Iesu i beri i Iuddewon y ganrif gyntaf gredu ynddo a'i dderbyn fel y Messeia, ac yntau wedi siomi holl ddysgwyliadau poblogaidd y genedl. Mae'r ffaith iddynt wneuthur hyny yn ffurfio'r prawf cryfaf possibl o'u syniad uchel am ei ardderchogrwydd ysprydol.

Ni cheir yn Paul y mantoliad perffaith, y cydgordiad hapus, y cysondeb melus a geir yn Iesu. Dyma ddywed Jerome, Pan fyddaf yn darllen Paul nid wyf yn teimlo fy mod yn clywed geiriau ond taranau. Gallai Paul heddyw, gyda llawn cymaint priodoldeb, ddefnyddio geiriau Ioan Fedyddiwr:—"Rhaid iddo ef gynyddu ac i minau leihau"

*Tebyg nad ysgrifenwyd efengyl Ioan fel y mae yn awr hyd tua O.C. 115; ond pe tynid allan frawddegau'r Logos (Y Gair), a'r rhai lle y pwysfawrir y "Myfi," yn nghyd a'r areithiau hirion XIV-XVII, ceid darlun o Iesu na fyddai n anhebyg i'r un a gawn yn yr efengylau eraill.

—a hyny ei gwaethaf y Prifathraw P. J. Forsyth. Ar ol bod, a diolch i'r eglwysi Protestanaidd am hyny, yn brif dduwinydd Cristnogol am hir amser, y mae yn ein dydd ni yn tynu at derfyn ei freniniaeth; tra mae Iesu o'r tu arall yn fwy byw nag erioed. Ebe Renan "Ceir sylwedd Cristnogaeth, nid yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, ond yn y Bregeth ar y Mynydd; nid yn Epistolau Paul, ond yn yr Efengylau y ceir y grefydd a fydd byw byth."

Barnai Renan na all dyn, yn nghanol dwndwr byd, ddim byw y bywyd delfrydol, na all efe ddim llai nag ymollwng mwy neu lai i ochr ambeus ei amgylchfyd. Wrth gwrs, Ffrancwr oedd Renan, a Phabydd,—ond fod y label wedi ei rwbio i bant. Ei gred oedd mai yn neillduedd y monachdy yn unig y gellid byw y bywyd delfrydol. Ni ddeallai Renan ystyr yr ymadrodd, Yn y byd, ac heb fod o hono. Ac eto cytunwn ag ef, nad yw'n bosibl gwneuthur mwy o gam a'r Apostol na thrwy ei baentio fel sant difrychau. Yr oedd Paul yn ddyn mawr, yn ddyn da, yn ddyn ardderchog, ond nid yn ddyn perffaith. Addefa ei hunan nad yw eto wedi cyrhaedd, wedi cael gafael, ymestyn y mae, *cyrchu at* y nod.—Phil. 3: 13, 14. Meddyliwr oedd Paul nid gweledydd fel Iesu; brwydrwr drwy ei oes. Esgynodd yn uchel, ond nid erioed i awyrgylch ddidwrw y tawelwch nefol. Ar ddiwedd ei oes, y cwbl a'r goreu allai ddywedyd oedd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn i mi yn y dydd hwnw: ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef"; ac yr oedd ganddo hawl deg i ddywedyd cymaint a hyny. Ni wnaeth gymaint ag a garai fe allai, ond credwn iddo wneuthur ei oreu. O nad allem ni bawb oll wneuthur ein hawl mor ddiogel! Ei gariad at Grist a'i galluogodd ef i wneuthur cymaint (gweler Rhuf. 8: 35—39). O am i ninau geisio cyffelyb gariad, a llwyddo i wneuthur cyffelyb waith!

T.C.U.

BYWYD YN Y BYD A DDAW.

Cwestiwn sydd yn cael llawer o sylw y dyddiau hyn yw ysbrydegaeth, a hyny nid gan yr anysgedig yn unig ond hefyd gan rai o brif wyddonwyr yr oes. Beth yw perthynas y materol a'r ysprydol, y bywyd sydd yma a'r bywyd sydd ar ol myned oddi yma, y byw a'r marw, yr enaid yn y corph ac ar ol i'r corph gael ei osod yn y bedd? Dyma ychydig o ffurfiau gymer yr un cwestiwn ddadleuir cymaint yn ei gylch gan nifer luosog o'n cydoeswyr.

Y mae darllenwyr YR YMOFYNYDD wedi cael cyfleusdra i ddarllen yn barod a hyny gan un sydd yn wir hyddysg yn y mater. Yr oll amcenir yma yw rhoddi braslun neu grynodeb o bapyr ddarllenwyd yn ddiweddar gan Mr. G. E. Owen (glowr ieuanc) o flaen dosbarth boreu Sul Eglwys Pontypridd.

Dywedodd yr awdwr ei fod ef yn benaf yn cymeryd dyddordeb yn yr agwedd wyddonol o'r cwestiwn ac yn ceisio dwyn y gwahanol ffeithiau i gydgordiad â'r hyn a wyddom eisoes am y bydysawd. Hwn hefyd yw

safbwynt efrydwyr fel Syr Oliver Lodge. Cyhoeddodd yr olaf lyfr cynwysfawr ychydig ddyddiau yn ol ar "*Survival of Man.*" Hyderwn y bydd iddo wneud i ffwrdd a llawer o ragfarn a dwyn yr astudiaeth yn nes at sylw y werin bobl. I lawer, dirgelwch hollol yw angen o'r bywyd dyfodol, a deil nid ychydig nad yw yn bosibl i ddyn wybod dim am danynt. Ond peth anoeth yw gosod terfyn fel yma ar alluoedd dyn gan ei fod yn dyfod i feddiant o ryw wybodaeth newydd yn barhaus. Mewn adeg o fyfyrdod tawel pan wedi ymneillduo oddiwrth helbulon beunyddiol bywyd esgyna'r enaid ar edyn awyddfryd ysbrydol a hawlia rywfaint o eglurhad ar bobpeth y daw i gyffyrddiad ag ef. Y mae hyn yn wir nid yn unig am y gweledig ond am yr anweledig yn ogystal.

Pe gofynid i ran fwyaf o grefyddwyr poblogaidd y dydd beth yw eu syniad am yr enaid ar ol angeu, pa fodd y bydd iddo gael ei ail uno a'r corph, yn mha le ac yn mha fodd y bydd iddo dreulio tragwyddoldeb yr ateb yn debygol fyddai nad doeth yw ymholi yn ormodol yn nghyleh pethau o'r fath ; os ydym yn ffyddiog ac yn credu yr hyn ddysgir gan yr eglwysi byddwn ryw ddydd yn ddiangol yn mhreichiau Iesu ac yn canu o gylch ei orsedd yn y nef. Mae'n bosibl y buasai rhai o honynt yn synu ein bod mor anmharchus o bethau cysegredig ac mor hyf a cheisio treiddio i dir gwaharddedig. Ond ni rydd ymddygiad fel hwn foddhad mwyach i feddwl ymofynol dyn. Nid oes amheuaeth nad yw yr hen ddull o edrych ar y bydysawd wedi chwareu rhan bwysig yn hanes dadblygiad y ddynoliaeth ond y mae ei amser bron a dyfod i derfyn. Yn ol fel y mae dyn yn esgyn a'i alluoedd yn cynyddu dylai ei dduwinyddiaeth gynyddu i'r un graddau. Un o ganlyniadau ysbryd ceidwadol mewn crefydd yw fod dynion yn gwrthod ceisio deall natur y bywyd dyfodol yn ngoleuni y wybodaeth uwch ac eangach sydd genym am y greadigaeth heddyw. Dywedai'r awdwr ei fod fel ysbrydegwr yn cymeryd yn ganiataol bedwar peth, sef fod yr enaid yn bodoli ar ol angeu, ei fod yn ymwybodol, yn parhau yn ei weithgarwch ac yn medru dal cymundeb a'r rhai y mae wedi adael ar ol ar y ddaear. Y mae hyn yn ran o gred yr ysbrydegwyr yn gyffredinol, a hawliant eu bod yn seiliedig ar dir lled gadarn. Gwnant gyfeirio yn y lle cyntaf at y ffaith fod y syniad o anfarwoldeb yn ac wedi ffynu yn mhlith pob cenedl o ddynion dros wyneb yr holl ddaear. Dywed un awdurdod :—"Gwn am rai crefyddau heb demlau nag allorau, heb ddefodau na gweddiau, ond nis gwn am yr un nad yw yn credu yn y posiblrwydd o gymundeb rhwng y byd ysbrydol â'r byd materol." Y rheswm ein bod wedi gwyro cymaint oddiwrth y gwirionedd mewn perthynas i'r bywyd dyfodol yw fod genym syniad mor anghywir am angeu.

Tyfiant ydyw bywyd ac y mae yn myned o dan gyfnewidiad yn barhaus o radd is i radd uwch, ac nid yw angeu yn ddim ond mynediad i fewn fel pe bae o un drigfan i drigfan arall. Yr hyn sydd o werth i ni geisio ei sylweddoli yw fod y cyfan mor naturiol a chodiad yr haul yn y boreu a'i fachludiad yn yr hwyr. Yr hyn ddeallir yn fynych wrth uwchnaturiol yw gwrthnaturiol. Ond mewn gwirionedd nid oes y fath beth a gwrthnaturiol yn bod o gwbl. Y mae'r cyfan yn gweithredu wrth ddeddfau a'r deddfau hyny yn parhau i fod yr un o ddechreu'r byd hyd ei ddiwedd. Nid yw pob digwyddiad ond ffrwyth naturiol rhyw achos, er ei bod yn ddigon posibl fod yr achos hyd yn hyn heb ei ddarganfod —ond y mae myned mor bell a dweyd nas gellir byth dyfod o hyd iddo yn iaith nad oes genym o gwbl hawl i'w defnyddio. Mae lle i ofyn yn y man hwn : Os mai dim ond cyfnewidiad neu weddnewidiad naturiol ydyw angeu beth ddigwydd i'r enaid—y rhan anfarwol o ddyn—ar ol hyny? Y syniad ddelir gan ysbrydegwyr yw ei fod ar ol dihatru'r hen gorph yn gwisgo corph newydd.

Corph sylweddol fydd hwn eto ond yn ysgafnach a llai materol na'r llall ac wedi ei ddarparu yn y cyfryw fodd fel ag i ateb yr amgylchedd yn union yr un fath a'r corph sydd genym yr awrhon. Gwir hanfod dyn hyd yn nod yn y byd hwn yw y rhan ysbrydol o hono a phery yr un peth i fod yn wir am dano yn y byd arall yn ogystal. Rhywbeth y mae'r enaid wedi fenthyca o'i amgylchedd yw y corph a phan y symuda 'mlaen i amgylchedd ysgafnach a llai materol bydd yn ofynol i'r corph fyned o dan gyfnewidiad cyffelyb. Nid yr ochr arall i'r bedd y mae i ni edrych am ddechreuad tragwyddoldeb ac anfarwoldeb ond estynant yn ol i'r gorphenol yn ogystal ag yn mlaen i'r dyfodol. Mor bell ag y medrwn ni ddeall, rhywbeth heb ddechreu na therfyn iddo yw tragwyddoldeb. A rhaid fod dyn fel bod ysbrydol yn anfarwol wedi bodoli mewn rhyw ystyr neu gilydd er cyn dechreuad y byd. Dysg datblygiad yr un peth sef fod yr hyn amlygir wedi bodoli mewn hanfod dros bob tragwyddoldeb. Ymddengys hwn o bosibl yn syniad caled i ni ei amggffred ond ni wna dim llai y tro yn ngoleuni gwybodaeth uwchaf yr oes bresenol.

Gwirionedd arall ag sydd o bwys i ni ei sylweddoli yw fod y materol a'r ysbrydol bob amser yn dylanwadu y naill ar y llall. Gwna gwrthrychau allanol argraffiadau ar yr ymenydd ac oddi yno trosglwyddir hwynt i'r meddwl, ie, ac i'r cymeriad yn ogystal. Drwy gyfarwyddyd y ddeddf hon y mae i ni gyfrif am y golwg, y clyw a'r holl synwyrau ereill y mae dyn yn feddianol arnynt. Rhoddir bodolaeth i'r pethau yma gan ddylanwad a gweithrediad y byd allanol. A'r tebygolrwydd yw fod yr un peth yn union yn dal yn wir yn y byd a ddaw ond fod y cyfryngau cymundeb rhwng y materol a'r ysbrydol wnant y tro yma yn anigonol ar gyfer yr amgylchedd ysgafnach ydym wedi bod yn son am dano fel yn bodoli yno. Hyn sydd i gyfrif, yn ol pob tebyg, am yr anhawsder i drosglwyddo negeseuon o un byd i'r byd arall. Credir y bydd i'r amgylchedd ysgafnach yn mha un y byddwn fyw ar ol ymadael a'r ddaear greu cyfryngau llai materol. Y mae rhai dynion wedi cyrhaedd y man hwn i raddau yn y bywyd presenol ac y maent yn alluog yn rhinwedd yr hyn elwir yn "ail-olwg" (*second-sight*) i ddal cymundeb â'r ysbrydion ymadawedig. Mewn geiriau ereill medrant dreiddio drwy yr amgylchedd presenol i'r amgylchedd ysgafnach yn myd yr ysbryd. Y mae'r ffaith hon fel pelydryn o oleuni yn codi dros yr orwel ac yn saethu drwy'r tywyllwch i'n rhybuddio fod yr haul ar godi yn ei holl ogoniant a'i ddisgleirdeb. Pan yn son am yr enaid fel yn feddianol ar gorph yn y byd a ddaw nid golygu ydym fod yr hen gorph yn cael ei adgyfodi o'r ddaear. Y mae hwnw wedi ymddiswyddo a dychwelyd i'r pridd o'r hwn y cafodd ei fenthyca. Yr hyn feddylir yn hytrach yw—a charem bwysleisio'r ffaith—fod yr enaid yn ffurfio corph newydd i ateb ei amgylchedd yr un fath yn union ag y darfu iddo wneuthur yma. Yn wir dywedir ei fod yn dechreu ffurfio y corph newydd cyn bod yr hen gorph wedi ei osod o'r neilldu. Onibae hyn buasai yr enaid yn nhymor ei drawsgludiad heb unrhyw gorph o gwbl. Yr oll fedrwn ddweyd yw nad yw y corph newydd yn dyfod i'w lawn swydd nes fod yr hen gorph wedi ei ddihatru. A chyfyd un ystyriaeth bwysig oddiar y gwirionedd hwn, sef ei bod yn bosibl i ni feithrin y corph llai materol tra yma ar y ddaear a gwneud y cyfnewidiad o un radd i radd arall yn hawddach ei ddwyn drwy fyw bywyd syml a rhinweddol yn y presenol. Nid oes yr un amheuaeth nad oes gan y meddwl, y tymer a'r ymborth gryn dipyn i wneud a'r cyflwr y byddwn ynddo ar ol i ni gyrhaedd yr ochr draw. Fel y dywed hen ddiareb Chineaidd: "Gweithredoedd y bywyd hwn fydd tynged y bywyd nesaf." Dylai'r ystyriaeth hon fod yn anogaeth i ni fyw a gweithredu yma yn unol a'r uwchaf y gwyddom

am dano gan gofio bob amser fod trosedd o ddeddf yn cael ei ganlyn gan gosp, a chan mai yr un deddfau sydd yma ag yn y byd a ddaw ni fydd i ni osgoi canlyniadau unrhyw bechod na'u trosglwyddo i neb arall. Gwir yw yr hyn ddesgrifir gan athroniaeth y Bwdistiaid: "Gwna dda ac nis medr yr un diafol dy ddanfon di i uffern; Gwna ddrwg ac nis gall yr un duw na gweddi dy ddwyn i'r nef." Bydd cyflwr bywyd yn y byd a ddaw ynte yn debyg iawn i gyflwr bywyd yn y byd hwn. Cynydd fydd yr arwyddair yno yr un fath ag yma, a bod yn berffaith y nod fel ag y mae ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.

J.P.D.

DYLEDSWYDD RHIENI MEWN PERTHYNAS I ADDYSG ELFENOL EU PLANT.

Wrth droi ein llygaid yn ol dros dudalenau y gorphenol, gwelir yn amlwg ac ar unwaith fod cyfnewidiadau neillduol bwysig wedi cymeryd lle yn ystod y blynyddoedd a'r canrifoedd diweddaf. Os yr edrychwn tua'r dde neu'r aswy canfyddwn yn union olion gweithiau ein cyndeidiau ar bob llaw. Nodweddid amseroedd y canoloesoedd yn benaf gan swn a chlodydd rhyfel a dinystr, pan y ceisiai un genedl dreisio a gormesu y llall i'r graddau ag oedd yn ei gallu ar y pryd hwnw, a'r unig glod a bri a ddeisyfai pawb am dano yn yr amser hwnw oedd yr hyn a gawsent o faes y frwydr. Erbyn heddyw y mae rhyfeloedd a son am ryfeloedd bron wedi tewi a diflanu, ac ni ddwysalerir ar eu hol heddyw megys cynt; canys ni a wyddom ac a brofasom wirionedd dywediad yr hen fardd Seisnig: — "Peace hath her victories not less renowned than war." Y mae addysg, celf a gwyddor wedi gweddnewid sefyllfa pethau i raddau pell iawn yn ystod y ganrif ddiweddaf, a mwynheir breintiau heddyw na wyddai y byd am danynt yn amseroedd tywyll y canoloesoedd. Gyda chalonau diolchgar yr ydym yn cydnabod gwerth bywydau gweithgar ac aberthus y gwroniaid dewr a weithiasant mor egniol er sicrhau i ni y breintiau a fwynheir heddyw.

Mae yr ysgolion dyddiol, canolraddol, a'r colegau wedi llwyr newid sefyllfa addysgol y wlad heddyw o'i chyferbynu â'r hyn oedd er's blynyddau mawrion yn ol. Teimla pob gwlad wareiddiedig erbyn hyn mai ei grym a'i nherth penaf yw yr addysg a gyfrana i'w deiliaid, a thelir y sylw manylaf i'r cyfryw, nid yn unig yn y wlad hon, ond yn hytrach yn holl wledydd y cyfandir a'r byd gwareiddiedig.

Yn y wlad hon y gri feunyddiol a glywn yw — am y dull a'r modd mwyaf effeithiol i gyfranu yr addysg oreu i'w phlant. Gwaria y Llywodraeth swm enfawr yn flynyddol tuag at sicrhau addysg elfenol effeithiol; y gwahanol gynghorau sirol a bwrdeisdrefi a wariant gyffelyb swm at yr un achos clodfawr. Yn ngwyneb y ffeithiau hyn dymunem ofyn a ydyw rhieni ein plant yn y wlad a'r dref yn dal cyfle ar y manteision bendithiol a estynir iddynt heddyw. Mae addysg elfenol a gyfrenir o'r pwysigrwydd mwyaf i rieni a phawb yn gyffredinol. Ni ddisgwylir ar i ran helaeth o'n bechgyn a'n merched ieuainc dderbyn

ychwaneg o ddysgeidiaeth nag a gânt yn moreu eu hoes yn yr ysgol elfenol. I'r mwyafrif ohonynt y mae amgylchiadau yn eu gorfodi i fyned allan i enill eu bywoliaeth mor fuan ag y cyrhaeddant eu tair neu bedair-ar-ddeg oed, a thebygol yw na cha ond ychydig ohonynt brofi o ysgol mwyach—er efallai yn y dyfodol y try ein hysgolion nosawl o fudd a lles iddynt.

Yn amser plentyndod yr hauir llawer o hadau rhinwedd a daioni, ac yn anffortunus, hefyd, o ddrygioni; y rhai, mewn amser a dyfant yn blanhigion cryfion yn eu cymeriadau tra yma ar y ddaear. Y mae meddwl a chalon plentyn yn amser ieuenctyd yn dyner ac agored i dderbyn unrhyw *stamp* a osodir arno, ac anhawdd fydd dileu yr argraffiadau yma os y cânt amser i aros yn eu calonau a'u cymeriadau.

Dywed rhai dysgedigion fod y

CYFAN MEDDYLIOL

yn y plentyn ar y dechreu—*in embryo*, fel y dywedir, fel ag y mae y ddeilen yn y planigyn cyn ymagor. Dywed eraill mai yr allanol a'r amgylchynedd (*environments*) sydd yn chwareu y rhan bwysicaf yn myd ac addysg plentyn. Er y dichon fod yn y plentyn o'i febyd ryw nodweddion teuluol, eto credir yn gyffredin mai i'r allanol yn gyfangwbl bron y mae addysg a chymeriad y plentyn i'w briodoli. Felly, wrth ddwyn i fynu blant y mae o'r pwysigrwydd dyfnaf eu bod yn cael eu dwyn i fynu mewn awyrgylch bur—lle teymasa rhinwedd a daioni o bob tu.

Credir nad yw rhieni ein gwlad wedi llwyr deimlo a phrofi gwerth a daioni yr ysgol elfenol i'w plant. Gan amryw gyrir hwynt i'r ysgol fel math o "reidrwydd," ac aml y clywir o eneu llawer math o rieni am y caethiwed yn nglyn â'r ysgolion elfenol yn y dyddiau hyn. Pe y teimlai rhieni wir werth a chanlyniadau addysg elfenol wirioneddol dda a phur, diamheu y byddai hyn yn fendith anmhrisiadwy, nid yn unig i'r plant eu hunain, eithr hefyd i'r werin a'r genedl yn gyffredinol. Yn nglyn â phrif ddyledswyddau rhieni yn y cyfeiriad hwn dymunem alw sylw at rai o'r cyfryw, gydag ychydig fanylder, fel y canlyn:—

1. DYLAI RHIENI RODDI ESIAMPL DDA I'R PLANT AR YR AELWYD GARTREF. Nis gellir ymhelaethu gormod ar bwysigrwydd dysgyblaeth yr aelwyd, er y bydd yn ofynol i ni gwtogi ein sylwadau yn yr erthygl hon. Pa mor dda bynag y caiff plentyn ei addysgu yn yr ysgol elfenol, erys dylanwadau a nodweddion ei addysg deuluol arno i fesur pell iawn. Y mae plentyn yn wastadol yn fôd efelychiadol iawn. Yn mhobpeth ceisia wneud a gweithredu a siarad yr un fath a'i rieni, ond ychydig feddylia miloedd o rieni yn Nghymru a Lloegr heddyw, pan yn dwyn i fynu deulu o blant wrth eu traed, eu bod, yn anymwybodol bron, yn hau hadau drain a mieri yn nghalonau tyner a meddyliau eu rhai bychain. Ceisia y mab bychan ddynwared ei dad yn mhobpeth, a'r ferch fechan yr un fath a ddilyna esiampl y fam. Y tad a'r fam yw yr *heroes* yn myd y rhai bach, a cheisiant yn wastadol eu hefelychu yn eu byd distadl hwy. Felly bydded i'r rhieni, yn y lle cyntaf, ddwys fyfyrio ar bwysigrwydd a chanlyniadau yr addysg a'r esiampl a ddangosir i'r rhai bychain tra ar yr aelwyd. Gadawer allan, yn enwedig yn ngolwg y plant, bob peth sydd a'i duedd ar i waered, a bydded iddynt yn barhaus roddi esiamplau pur, Cristionogol o'u blaen, fel ag y bydd y cyfryw yn sail gadarn, gref, ar yr hon y medr y plentyn dyfu i fynu i feddianu cymeriad gloew a disglaer yn nyddiau ei ddyfodol.

2. DYLAI RHIENI BOB AMSER FOD YN UN A'R YSGOLFEISTR NEU'R YSGOLFEISTRES. Wrth gymeryd plentyn i'r ysgol elfenol pan tua pump neu chwech oed, trosglwyddir ef i ofal yr athraw yn gyfangwbl am ryw gymaint o amser bob dydd, ac felly dylasai fod y berthynas a'r teimladau agosaf rhwng pob rhieni a'r athraw—er lles a budd i'r plentyn.

Ar yr aelwyd gartref ni ddylesid siarad yn amharchus ac isel am yr athraw; oherwydd drwy hyny dirwynir y plentyn i goleddu y fath syniadau, yr hyn a dry allan yn niweidiol iawn i addysg y dysgybl, ac hefyd i'r athraw wrth geisio ei ddysgyblu. Dylasai y tad a'r fam ar yr aelwyd ddwyn y plant i feddwl ac ystyried eu bod yn mynychu sefydliad a fydd o werth amhrisiadwy iddynt yn y dyfodol, a'u cefnogi a'u cynghori i wneuthur yn hollol yr hyn a wna yr athraw ofyn ganddynt, i fod ar bob adeg yn ufudd, gostyngedig a pharod i weithio. Trwy gael y cyddealltwriaeth hwn rhwng y rhieni a'r athraw, try y gwaith yn yr ysgol allan yn fwy pleserus a thrwyadl; cymer y tad a'r fam y dyddordeb mwyaf yn ngwaith a chynydd eu plentyn, a thrwy gael y cydgordiad melus hwn esgyn y plentyn i fynu yn fuan ar raddfa dysg, a daw, efallai, yn y dyfodol felly yn seren ddisglaer yn ffurfafen dysgeidiaeth.

3. DYLASAI RHIENI ABERTHU I RODDI ADDYSG GYSON I'W PLANT. Y mae dirgelwch llwyddiant plentyn yn dibynu i fesur helaeth ar ei gysondeb yn yr ysgol. Ni ddisgwylir ar i blentyn sydd yn cael ei gadw gartref ddiwrnod neu ddau o bob wythnos wneud yr un cynydd yn ei yrfa addysgol ag a wna plentyn sydd yn mynychu ei ysgol yn gyson. Heblaw hyny, cyll y plentyn ei flas a'i ddyddordeb yn yr ysgol i'r un graddau. Mae yr anghyson bron yn wastadol ar ol ei ddosbarth, a chaiff yr athraw lawer o flinder a thrafferth ei gael i fynu i safon y lleill. Mae y plentyn felly dan orfodiaeth i weithio yn galetach, ac ar yr un pryd gwel a theimla ei hun yn israddol i'w gyfoedion, a thrwy hyny ni cha nemawr o ddyddordeb yn ei waith. Mae ei galon a'i feddwl yn isel trwy weled ei fod, er ei ymdrechion goreu, yn gorfod boddloni ar le ailraddol yn ei ddosbarth. Dechreua, efallai, gashau myned i'r ysgol; a chan fod ei rieni yn ddifater, ac yn falch i 'gael ei wasanaeth gartref, rhoddant fwy o anogaeth iddo yn aml, er dirfawr ddrwg i'r plentyn yn y pen draw. Nid bai y plentyn yw; nid oes diffyg ar ei alluoedd addysgol efallai, eithr diffyg y rhieni yn gyfangwbl yw. Wrth gadw eu plant gartref fel hyn o ddydd i ddydd diffoddir y gobeithion goreu am eu llwyddiant; ac er y medrai y bachgen gyrhaedd uchel safle yng nghwrs ei fywyd, tegir ef yn llwyr gan y difaterwch hyn o du ei rieni, a gorfodir ef oherwydd y diffyg i enill ei fywoliaeth trwy ddilyn galwedigaeth gyffredin.

Hefyd mae y wers o Brydlondeb plant yn yr ysgol i'w briodoli bron yn llwyr i'w rhieni. Ni wnaiff y fam wirioneddol aros yn ddioglyd yn ei gwely a gadael i'w rhai bychain i barotoi eu hunain i fyned i'r ysgol. Na, ond nid felly y gwelir hi yn aml fel y mae yn resyn meddwl. Bydded i famau Cymru feddwl a theimlo y mawr bwysigrwydd a osodir arnynt i roddi yr esiampl oreu, i roddi pob cymhorth a hyrwyddiant i'w plant, tra yn moreu oes, i feithrin yr arferion o brydlondeb a chysondeb, fel pan y tyfant i fyny yn fechgyn a merched y bydd yr arferion ddysgasent gynt yn rhan wirioneddol o'u bywyd, ac yn fendith a chaffaeliad arosol iddynt.

4. DYLASAI RHIENI BOB AMSER GYMERYD Y GOFAL MWYAF I GADW EU PLANT YN LAN A THREFNUS, A'U DILLADU A'U BWYDA MOR DDA AG Y MEDRANT. Er nad yw hyn o bosibl yn dal cysylltiad uniongyrchol ag addysg elfenol, eto y mae y cyfryw yn anhebgorol anghenrheidiol er sicrhau diwylliant perffaith yn yr ysgol. Dylasai y plant o'r dechreu ddysgu yr arferion o lendid a threfnusrwydd, ac er y gellir gwneyd llawer yn y cyfeiriad hwn yn yr ysgol ddyddiol syrth y brif ran o du eu rhieni. Dysgir yn yr ysgol am achosion a lledaeniad gwahanol glefydau a heintiau, ond y mae yn gorphwys i raddau pell ar y rhieni i roddi yr esiampl mewn ymarferiad. Yn ychwanegol, cyn y gall plentyn sefyll dan *strain* yr ysgol, mae yn ofynol ei fod wedi ei borthi a'i ddilladu yn dda. Mae yn ofynol i'r plentyn nid yn unig i fodoli, ond i dyfu—yn gorfforol a

a meddyliol—ac er sicrhau hyny, y mae yn rhaid wrth luniaeth maethlawn yn feunyddiol a chyflawnder o hono. Trwy etifeddiaeth o gorph iach, heini, mae yr ymenydd, y galluoedd meddyliol a'r ysbryd yn fwy parod i ymroddi i waith, a thrwy hyn dring y plentyn i fyny yn fwy buan, ac o bosibl bydd ei grynhofa o wybodaeth ar yr un pryd yn fwy arosol yn ei feddwl a'i gof.

5. DYLAI RHIENI FOD MEWN AGOSRWYDD A CHYMUNDEB PARHAUS A'R ATHRAW, er gwybod yn gywir yn mha linellau y mae y plentyn yn wanaidd a diffygiol, ac hefyd er mwyn deall ei gryfder yn y gwahanol ganghenau. Byddai hyn yn ychwanegol, yn fantais nid bychan i'r athraw ei hun. Yn aml wrth ymdrin a'r ieuengctyd teflir yr athraw i dywyllwch yn nghylch cynydd ac addysg rhyw blentyn neillduol, a phe buasai y rhieni a'r athraw mewn agosach cymundeb a'u gilydd diamheu y cawsit esboniad clir o'r ddau tu yn nghylch y dirgelwch yn nglyn a chynydd y plentyn.

Ar y llaw arall y mae yn ngallu yr ysgolfeistr i wybod ac hyfforddi llawer o rieni yn nglyn a pha alwedigaeth sydd fwyaf cymhwys i'r plentyn ar ol gadael yr ysgol ddyddiol. Ar ol treulio rhai blynyddoedd gyda'r plentyn yn yr ysgol yn barhaus, gwyr yn berffaith am ei safon addysgol, a medr hyfforddi llawer ohono a'i rieni yn nghylch pa gwrs y bydd yn debygol o droi yn llwyddiant ynddo.

Gwyddom, fel mae'n resyn meddwl, am ugeiniau o'n hieuengctyd sydd wedi troi allan yn fethiant truenus yn eu gwahanol alwedigaethau, a gellir priodoli hyny yn aml i'r diffyg hyfforddiant a gawsant pan yn ieuaingc. Y mae llawer mab a merch wedi eu *pusho* a'u gorfodi i gymeryd i fyny ryw swydd neu alwedigaeth neillduol, pan na feddant unrhyw gymhwysder o gwbl i gyflawni y swydd hono yn anrhydeddus. Prif ddymuniad y tad a'r fam efallai, oedd gweled eu plant yn esgyn i binacl anrhydedd ac er sicrhau hyny gwarient arian lawer er cyrhaedd yr amcan gogoneddus hwnw, ceisiant ganddynt gymeryd i fyny swydd o fri, ac aberthant lawer er gweled yr amcan hwn yn dod i ben. Ond ar ol treulio blynyddau i geisio gwthio eu plentyn i fyny try eu gobeithion yn siomiant trylwyr. Brithir hanes eu plentyn a methiantau truenus ar bob llaw, a'r canlyniad yw, i'r plentyn droi allan yn fethiant parhaol mewn cylchoedd ereill a geisia wasanaethu. Gwyr yr athraw yn dda beth yw hyd. lled, a dyfnder meddyliol pob plentyn, a phe y buasai mwy o gydweithrediad a chymundeb rhwng y rhieni a'r athrawon diamheu y byddai hanes llawer un o'n hieuenctyd yn fwy gloew a chynyddol. Er lles dyfodol ein plant teimlwn y buasai mwy o'r cydymdeimlad a'r cydweithrediad yma yn fendithiol iawn mewn llawer ystyr ; ac yn wastad anogwn rieni ein gwlad i ddal mantais ar y cyfleustra hwn i gael barn addfed yr athraw yn nglyn a pha gwrs neu alwedigaeth y tybia ef sydd fwyaf cymhwys i'r plentyn ymgymeryd a hi.

6. DYLAI RHIENI RODDI POB CYFLEUSTRA, RHWYDDINEB AC HYFFORDDIANT I'R PLANT I DDYSGU EU CARTREF-WERSI. Gwyddis am rai sydd yn hollol groes i'r plant i ddarllen ac astudio ar yr aelwyd gartref. Teimlant mai gwaith yr ysgol yn llwyr yw hyny, a disgwyliant i'r plant roddi eu holl amser er eu cynorthwyo hwy gartref ar ol gorphen a gwaith yr ysgol am y dydd. Yn wir, mewn llawer teulu, y mae amgylchiadau yn ei gwneyd yn orfodaeth yn y cyfeiriad hwnw, ond yn gyffredin mae gan y plant ryw gymaint o amser iddynt hwy eu hunain, a dylai y rhieni ar bob adeg anog ac hyfforddi eu plant i wneyd y defnydd goreu o'u hamser. I amser chwareu y mae ei le ei hun, ac nid ydym am dynu dim yn ol o'r amser hwn, eithr credwn fod yn rhaid i bob plentyn wrth chwareu, cyn y maga nerth a chyfansoddiad cryf. Dylasai y rhieni yn wastad anog y plant i ddarllen yn helaeth o lyfrau buddiol, i wneyd eu *home lessons* yn lân a chryno, ac ar bob adeg roddi y gefnogaeth oreu a

mwyaf trylwyr iddynt berffeithio eu hunain mewn gwahanol ganghenau o wybodaeth.

Trwy hyn dygir gwaith yr ysgol i gylch y teulu gartref. Gwel y tad a'r fam waith a sefyllfa addysgol y plentyn, a dwg y cyfryw yr ysgol a'r cartref i agosach cymundeb a'u gilydd. Daw y plentyn i ddeall mai yr un ydynt mewn gwirionedd, fod y cyfan er ei fudd a'i ddaioni ef yn y dyfodol. Bydded i'r rhieni felly roddi y gefnogaeth oreu i'w plant i ddringo ar hyd grisiau dysg a gwybodaeth mor bell ag y medrant aberthu, tra y caniata yr amgylchiadau.

Wrth ddiweddu hyn o sylwadau ar y testyn gorbwysig hwn, carem grybwyll cyn y terfyn ei bod o'r pwysigrwydd mwyaf fod cymeriadau y pennau teulu yn ddilychwyn. Gonestrwydd, geirwiredd, diwydrwydd, uniondeb, a bywyd pur Cristionogol ddylasai nodweddu pob cymeriad sydd yn dwyn i fyny blant. "Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd a phan yr heneiddia nid ymedy a hi" medd yr Hen Air, ac nis gellir traethu gormod ar wirionedd y gosodiad. Dylasai y plant ar bob adeg gael yr anogaeth oreu i wneyd eu dyledswyddau yn urddasol tra yn mynychu eu hysgol ddyddiol. Gyda y rhieni dylasai yr athraw gael y parch a'r edmygedd mwyaf. Mae ein hysgolion elfenol yn sefydliadau gwych ac o ddirfawr ddefnyddioldeb. Bydded i rieni ein gwlad felly brofi a theimlo hyn, fel trwy eu cynorthwy a'u cydweithrediad y try ein hysgolion fechgyn a merched allan fydd yn deilwng o'n gwlad a'n cenedl, ac i fyw bywydau o ddefnyddioldeb ac esiampl ym mha gylch bynag yr arweinia Tynged hwy i wasanaethu.

OMEGA.

Mydroilyn
Calan 1910.

PRIODASAU.

TACHWEDD 11, yn nghapel y Tabernacl, Pontardawe, unwyd mewn priodas brydferth, Miss Nellie Stierl, Fountain Villa, Trebanos, â Mr. Albert Edward Wydenbach, Clifton Hill, Abertawy.

RHAGFYR 10, yn Eglwys y Plwyf, Llanddewi-aberarth, gan y Parch. D. Jones, Miss E. Lewis, gynt o Faesgwilym, Cellan, â Mr. Walter Davies, Caeronen, Cellan.

RHAGFYR 18, yn Mrondeifi, gan y gweinidog, Miss Anne Jones, merch hynaf Mr. Daniel Jones, Drover's Road, Llanbedr, â Mr. William John Davies, o Gaerfyrddin.

RHAGFYR 23, yn Horeb, Llandyssul, gan y Parchn. T. Arthur Thomas, a D. Jones, Gwernllwyn, unwyd mewn glan briodas Mr. James Jones, Coal Merchant, Llandyssul, trysorydd eglwys y Graig, a Miss Esther Jane Evans, Neuadd, Horeb, gynt o Blaenllyn. Y bendithion goreu fyddo yn eiddo y pâr newydd.

MARWGOFION.

MEDI 26, 1909, yn nghlafdy Punxsutawney, Pa., bu farw Miss Eleanor Ann Thomas, merch Thomas D. Thomas a'i briod o Drecynon, Aberdar, D. C., lle y ganwyd hi Medi 16, 1866. Daeth i'r wlad hon gyda'i thadcu a'i mamgu, William G. Jenkins a'i briod, yn mis Mehefin, 1871, i Morris Run, Swydd Tioga, Pa., canys yno yr oedd ei rhieni wedi ymsefydlu. Treuliodd Miss Thomas braidd ei holl fywyd gyda'i thadcu a'i mamgu, hyd nes iddynt hwy, yn nghyd a'u dau fab, Evan a John, huno yn yr angeu, a chael eu claddu yn Blossburg, Swydd Tioga. Gan mai Eleanor Ann oedd y diweddaf o'r teulu uchod, teimlodd ei bod yn unig, ac yn mis Awst, 1903, daeth i fyw at ei rhieni, Thomas D. Thomas a'i briod, West End, Punxsutawney, Swydd Jefferson. Cymerwyd hi yn glaf iawn o glefyd y galon ar y 10fed o fis Mehefin diweddaf, a dioddefodd boenau mawr iawn mewn ysbryd tawel a dirwgnach hyd y diwedd. Bore dydd Mercher, y 29ain, aed a'i rhan farwol i Blossburg, a chafwyd gwasanaeth angladdol yno yn addoldy yr Annibynwyr Cymreig. Daearwyd corff y foneddiges hawddgar ac anwyl yn ymyl y rhai a garai mor fawr. Y mae y perthynasau canlynol yn galaru ei cholled—ei mam oedranus, Mrs. Thomas D. dwy chwaer, Mrs. J. R. Davies, West End, a Mrs. Edwin Beechy, Glen Richey, Swydd Clearfield. Hefyd pump o frodyr, Daniel J. a William G., West End; Evan J. a Lewis J., Jeslin, Ind. Co., a Thomas D., Homer City, Ind. Co., y tri olaf yn swyddogion glofaol gyda gwahanol gwmniau. Bu farw tad Miss Thomas yn mis Chwefror, 1907. Yr oedd ef yn gerddor medrus, ac yn arweinydd corawl o gryn fri. Gellir yn rhwydd ddyweyd am bob un o'r teulu parchus uchod fod eu heneidiau yn nofio mewn canu a cherddoriaeth. Anwyl gyfeillion, peidiwch galaru, fel rhai heb obaith; cewch gyfarfod a'ch Eleanor Ann eto, yn y nefoedd a chyduno i ganu

"Ni bydd diwedd
Byth ar swn y delyn aur."

T. T. HOWELL.

O'r 'Drych.'

HYDREF 20, bu farw Jenkin Morgan, Tryal, Llanarth, yn 82 oed. Gadawodd nifer luosog o blant ar ei ol, un o'r rhai (ei ferch), yr hon oedd yn byw gydag ef yn y Tryal, fu yn gweini yn dyner arno yn ei gystudd olaf. Dydd Sadwrn canlynol claddwyd ei weddillion yn mynwent Llanwnen. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan weinidog Cribyn; gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. J. C. Owen, Ystrad; ac yn yr eglwys gan y ficer.

TACHWEDD 1, yn ngorlifiad glofa y Tarteni, ger Ystalyfera, yn 19 mlwydd oed, Evan Thomas, Gellynudd, ger Pontardawe. Dyma fachgen ieuanc rhinweddol, wedi cael ei alw o'r byd trwy foddi mewn rhuthr-ddwfr tanddaearol. Blodeuyn prydferth yr aelwyd ydoedd efe; bob amser yn wyneb siriol. Diameu y bydd ei gyfoedion yn gweled, ac yn teimlo ei absenoldeb yn y cwmni difyrus ar oriau hamddenol yr arferent dreulio gyda'u gilydd. Hyderwn y caiff y tad a'r fam nerth i ddal yn gryf dan yr ergyd; ac y bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig. Y Sadwrn dilynol, claddwyd ei ran weledig gan un o'r cynhebrŷngau mwyaf y buom yn llygad-dyst o hono erioed, i gladdfa Gellionen. Gwasanaethwyd wrth y ty gan yr offeiriad, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. W. Alfa Richards.

TACHWEDD 23, yn 30 mlwydd oed, Margaret Ann Evans, nith i Mr. David Davies, Post Office,

Felinfach, Llanfihangel Ystrad. Collodd yr ymadawedig ei mam pan yn blentyn ieuanc, a chyda ei hewyrth a'i mhodryb yn y Post Office yr oedd wedi bod yn cartrefu. Er mai peth anymunol i blentyn ydyw colli ei fam, eto cafodd yr ymadawedig dad da a mam dyner a gofalus yn ei hewythr a'i mhodryb. Tyfodd i fyny o dan eu dysgyblaeth yn gymeriad ardderchog. Ond er mor brydferth ei bywyd, ni chafodd aros yma yn hir. Ymaflodd rhyw afiechyd mewnol ynddi tua phedair mlynedd yn ol, ac ni adawodd hi hyd nes ei gorchfygu. Blin iawn oedd ei cholli, ond nid wrth nifer blynyddau mae barnu hyd bywyd, ond wrth ei burdeb, wrth ei rinweddau, ac wrth ei ddaioni—mae llawer sydd wedi cael byw am flynyddau meithion wedi ymadael â'r byd yma yn amddifad iawn mewn purdeb, rhinwedd a daioni. Yr oedd yr ymadawedig, er wedi ei symud yn gynar, yn gyfoethog o'r elfenau yma yn ei bywyd, ac yr oedd wedi byw yn hwy mewn gwirionedd na llawer sydd wedi cael treulio mwy o flynyddau yma. Yr oedd yn un o'r rhai ffyddlonaf gyda'r addoliad, a'r Ysgol Sul, a'r ysgol gân yn Rhydygwin. Mae wedi gosod esiampl dda ; hyderwn y bydd i'w hesiampl gael dylanwad da ar rywrai, fel y caffo'r bwlch mae ei symudiad wedi achosi ei lanw. Claddwyd yn mynwent eglwys Rhydygwin y dydd Llun canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog yn nghyd, o barch i'r ymadawedig. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Evans, Cribyn ; B. Carolan Davies, Tynygwndwn ; a J. C. Owen, Ystrad. Gadawodd i alaru ar ei hol heblaw y teulu yn y Post Office, frawd a chwaer, a nifer luosog o berthynasau eraill.

TACHWEDD 24, yn 42 mlwydd oed, Thomas John Evans, Graig, Trebanos, a mab y diweddar Barchedig John Evans, Gellionen, a brawd hefyd i'r meddyg medrus, Dr. W. O. Evans, L.R.C.P., &c., Pontardawe. Cofiem pan y cydysgolheigiem yn Ysgol Ramadegol ei dad, ar Graig-Trebanos flynyddau lawer yn ol—ei fynych frawddegau ffraeth a difyr yn y dosparth, nes y byddem oll yn chwerthin am y goreu. Ond erbyn heddyw distawodd y tafod, a phalloddy geiriau ; a ninau megis yn fud uwchben ei sydyn symudiad o'r byd hwn i'r byd tu hwnt i leni teneu amser. Y dydd Sadwrn cyfisol priddwyd ei deml o glai wrth Gellionen, dan weinyddiad gwlithog-dyner y Parch. W. Alfa Richards. Gorphwysed yn dawel yn nghysgod brigau ŷw y gladdfa.

RHAGFYR 4, yn 73 mlwydd oed, John Jones, Penbanc, Temple Bar, plwyf Llanfihangel Ystrad. Yr oedd iechyd yr ymadawedig wedi dechreu gwaethygu er dechreu'r flwyddyn hon, ac yr oedd er's misoedd wedi ei analluogi i ddilyn ei waith ; ond buodd yn hynod dawel a diboen hyd y diwedd. Dyn tawel, diniwed, yn ewyllysio bod mewn heddwch a phawb oedd yr ymadawedig ; ac yr oedd ar gyfrif ei dymer heddychol yn barchus gan bawb. Claddwyd yr Iau canlynol yn mynwent eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr ; B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn, a J. T. Parry, Cilcenin. Gadawodd weddw, tri mab, pump merch, ac wyrion, a pherthynasau eraill mewn galar ar ei ol. Nerth a gaffont i ymostwng, ac i ymfoddloni i'r ewyllys fawr a ordeiniodd hyn.

RHAGFYR 5, bu farw John Jones, Penlanganol, ger Cribyn, yn 71 oed. Trwy ei farwolaeth ef collodd y gymydogaeth un a dreuliodd fywyd diwyd, sobr, didwyll, a ffyddlawn i bob dyledswydd ddisgynai i'w ran i'w ran i'w chyflawnu. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa y Cribyn er yn ieuanc, a thrwy y rhan fwyaf o'i oes bu yn aelod ffyddlawn. Er y daeth i fyw i'r lle uchod ychydig flynyddau yn ol, ni welid ei le byth yn wag hyd yr analluogwyd ef gan fethiant ei iechyd yn nechreu yr Hydref diweddaf. Gadawodd ddwy ferch ac un mab mewn galar ar ei ol. Dydd

Y Parch. J. HATHREN DAVIES, Cefncoedycymmer.

Ganwyd - - - Rydref 25ain, 1835.
Bu farw - - - Mawrth 12fed, 1910.

Iau canlynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelygroes gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

RHAGFYR 6, wedi cystudd maith, yn 60 oed, Elizabeth, anwyl briod Mesac Williams, Ffinant Cottage, Llanwenog. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Llanwnen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. J. Davies ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y ficer. Gadawodd ei phriod, dwy ferch, ac amryw berthynasau agos i alaru'n ddwys ar ei hol Bydded i addewidion gwerthfawr Cristionogaeth eu cymodi a'r amgylchiad.

RHAGFYR 6, yn 64 mlwydd oed, Samuel Davies, Penybanc, Craig-Trebanos. Lledwyd y newydd galarus am farwolaeth sydyn fy ewythr Sam, nes y tarawyd y fro a syndod. Er mai cystudd byr a chaled gafodd, feddyliodd neb fod y diwedd mor agos. Ond er y cyfan, rhaid rhyfedd sydd ar ddyn i ymdrechu bod yn foddlon, ac yn ffyddlon a gostyngedig, o tan drefn sydd hyd yn hyn yn dywyll a diesboniad i feddwl dyn. Nodded y nef fyddo gyda ei weddw ymdrechgar, yr hon a adawyd yn unig yn yr anial garw, a blin. Sugned y teulu a'r perthynynasau lluosog eu diddanwch goreu yn y cyfngder chwerw. Claddwyd yr 11eg cyfisol yn mynwent capel Gellionen, a gweinyddwyd gan y Parch. W. Alfa Richards.

RHAGFYR 7, yn nhy ei ferch, Maesyrafon, Pentrecourt, Llangeler, Mr. Isaac Evans, gynt o Ffynonwen, Tregroes, yn 65 mlwydd oed. Y dydd Gwener dilynol claddwyd ei ran farwol yn mynwent Pantdefaid, a gwasanaethwyd gan y gweinidog. Gadawodd fab a merch mewn galar ar ei ol. Dyn tawel a charedig ei ysbryd ydoedd yr ymadawedig, ac iddo barch diledryw gan ei holl gydnabod. Arosed ei rinweddau i flaguro a phrydferthu llwybrau'r byd.

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Da genym ddweyd eto i'r perdonydd cywrain, Isaac Emlyn Hopkin, ddod allan yn drydydd oreu o wyth-a-deugain, ac agored i bob oedran, yn eisteddfod fawreddog Casnewydd, dydd Gwener, Tachwedd 26. Hefyd llongyfarchwn y bachgen twt, Oscar Bowen, Bella Vista, Trebanos, yn cipio y *first prize* ar y berdoneg yn eisteddfod Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, nos Sadwrn, Tachwedd 27.——Nos Sadwrn, Rhagfyr y 4ydd, yn ysgoldy y Graig cafwyd cyfarfod adloniadol, dan arweiniad deheuig Alfa. Rhoddwyd unawdau, lleisiol ac offerynol, adroddiadau, ac anerchiadau difyr a da. Mwynhawyd y *Graphophone* yn dda dros ben, a diolchir i Mr. William J. Morgan, Penybanc, am roi ei fenthyg a'i drafod mor ddidaro. Dymuna y pwyllgor ddiolch i bawb fu yn gwneud eu rhan i wneud y cyfarfod mor llewyrchus, ac'l bawb am eu presenoldeb.

BRONDEIFI :— Nos Lun, Rhagfyr 27ain cafwyd darlith ardderchog gan Dr. Phillips (M.C.), Tylorstown ar y testyn "Coron y Greadigaeth." Y farn gyffredin cyn y ddarlith oedd mai 'dyn' ydoedd y testyn a phrofodd hyny'n gywir. Traethodd y Doctor yn alluog ar ddyn yng ngwahanol agweddau ei gorph a'i feddwl. Yr oedd y ddarlith nid yn unig yn ddifyr ond yr oedd adeiladol iawn. Gwelem

yn amlycach nag erioed mai "Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed" Nodwedd ddymunol iawn yn y cyfarfod oedd undeb yr Eglwysi. Mewn capel Undodaidd y cynhelid y cyfarfod, Methodist oedd y darlithydd Eglwyswr oedd y cadeirydd (D. F. Lloyd, Ysw. Maer y Dref), ac Anibynwr oedd un o'r rhai a gynhygiai ddiolch. "Mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd" Teimlai'r darlithydd ar lawer cyfrif yn falch o'r cyfleusdra i ddarlithio yn Mrondeifi. Carai'r fraint o ddarlithio mewn capel Undodaidd, ac o bwlpud cyfagos i'r fynwent lle gorweddai cynifer o'i berthynasau nad oedd arno gywilydd o honynt. Cyfeiriodd y darlithydd yn garedig iawn at y Parch. R. J Jones, yr Hen Dy Cwrdd a dywedodd mai Mr. Jones a'i gosododd ar droed y ffordd i efrydu gwyddor a meddyleg.

CAERONEN. — Prydnawn dydd Iau Rhagfyr 23ain bu Mr. a Mrs. Davies, Ffermdy Caeronen garediced a rho'i gwledd rhagorol o de i aelodau cynulleidfa Caeronen a chyfeillion o'r gymydogaeth. Nid hawdd y gellid meddwl am ffordd well i ddathlu eu priodas. Wedi gorphen a'r te cafwyd math o gyngherdd anffurfiol, a mawr fu'r mwynhad a'r llawenydd. Cafwyd areithiau difyr o ddiolch a llongyfarch, ynghyd a darnau lawer gan y plant. Nid iawn fyddai peidio son am gymhorth Mr. Garfield Evans a'i *gramophone* a fu o gymaint gwasanaeth. Yn ystod y cyfarfod anrhegwyd Miss Lizzie Davies, Llwynifan Cottage a llestri arian yn gydnabyddiaeth am ei gwasanaeth parod fel organyddes. Gwobrwywyd y plant hefyd a thystysgrifau am basio arholiadau'r Ysgol Sul. Rhwng popeth cafwyd cyfarfod blasus dros ben. Mae ein diolch gwresog yn ddyledus i Mr. a Mrs. Davies am eu haelioni a'u caredigwydd. Boed iddynt oes hir o wasanaeth mawr.

HIGHLAND PLACE, ABERDAR.—Nos Iau, y 18fed o Dachwedd, traddodwyd darlith gan y Parch. David G. Rees, Penybont, ar "Iolo Morganwg." Cadeiriwyd yn ddeheuig gan Mr. D. Tyssul Davies, adeiladydd, Aberdar. Cafwyd hefyd sylwadau dyddorol a chymwys gan y Parch. R. J. Jones, M.A., a chan Mr. L. N. Williams. Yr oedd yn bresenol gynulliad da, a chafwyd gwrandawiad astud. Da genym ddeall fod yr hen Fardd o Forganwg o'r diwedd fel pe yn dod i'w eiddo ei hun. Ar nos Sadwrn yn flaenorol i'r ddarlith hon, yr ydym yn sylwi fod yna foneddwr o'r enw David Rhys yn darlithio ar yr un testyn o flaen Cymdeithas Forganwg Llundain.

BLAENGARW.—Nos Sadwrn y 6fed o Dachwedd yn y Neuaddd Gyhoeddus, traddododd y Parch D. G. Rees, Bridgend ei ddarlith ar 'Tolstoy, addysg foesol a chymdeithasol ei ddamhegion'. Cadeiriwyd gan Mr. Arbuckle, M.E., Goruwchwyliwr Glofa Blaengarw. Yr oedd yr elw tuag at gynorthwyo Mr. John Milton yr hwn sydd wedi ei analluogi i ddilyn ei orchwyl am naw mis drwy afiechyd Da genym ddeall fod elw sylweddol wedi wneyd.

BRYN—Saif y lle bychan hwn ar Reilffordd Port Talbot, tua haner y ffordd rhwng Maesteg ac Aberafon. Y mae ynddo tua deunaw cant o drigolion. Nos Fercher y 10fed o Dachwedd, traddodwyd darlith ar 'Iolo Morganwg' gan y Parch. D. G. Rees, yn nghapel Annibynol Carmel y lle uchod. Cadeiriwyd gan y Parch. J. Lloyd Thomas, gweinidog y Methodistiaid, yr unig weinidog anghydffurfiol sydd yn byw yn y lle. Siaradodd y Cadeirydd yn uchel iawn am yr hen fardd, a rhoddodd y gynulleidfa wrandawiad astud i'r darlithydd yn ei adroddiad o hanes yr hen gymeriad o Forganwg.

TYBED a fedraf roddi brawddeg neu ddwy o'r hen iaith ynghyd, wedi dwy neu dair blynedd o grwydro mewn anial dir. Y mae YR YMOFYNYDD Medi i law. Sonia R.J.J. am brofiad yr hen Richard Llewelyn parthed emynau Iolo Morganwg. Teimlaf finau yr un fath. Adgofiaf gyrddau agoriadol Brondeifi rai blynyddau yn ol. Yr oedd emyn Gwilym

Marles ar y rhaglen, wedi ei gosod i dôn fyth-swynol Hefin Williams. Ar y cyntaf ymddangosai y geiriau yn gornelog ac yn anystwyth i ni. Rwy'n cofio i'r emyn gael ei ganu ddwy waith, yn y bore ac yn y prydnawn; ac fel Richard Llewelyn, teimlwn y geiriau yn ymaflyd ynof po fwyaf y canesid hwyut. Llawer haner awr wedi hyny ysbeiliais o waith gofidus yr hen fusnes i dreulio ar greigiau glan môr Aber, lle gwaeddwn emyn Gwilym yn fy null bach fy hun i gyfeilyddiad rhu y môr. Yn awr y mae gofynion iechyd a'm galwedigaeth yn fy nwyn beunydd i gopaäu bryniau "Zealand Newydd," a'm pleser mwyaf yw dod adre ar fin yr hwyr, a seinio i'r awelon ('does yma neb arall yn eu deall)—

"Ior mawr y nef, Anfeidrol Ri,
O taen Dy aden drosom ni," &c.

Nid anystwyth hon bellach, ond hynod fawreddog, fel y bryniau o gylch ac o'r un reddf a'r awel fwyn. Mor gydnaws a thymer yr hwyrddydd ydyw y llinellau olaf—

"Rho imi'n goron ar bob braint,
Hen gariad y boreuol saint;
Nes dyger ni heb boen na braw
Yn ddiogel oll i'r gwynfyd draw."

Gwir y cana Sarnicol yn ei bryddest:

"Hen wlad fy ngenedigaeth, tardd yn hon
Gariad o eigion y greadigaeth."

Gair bach o brofiad, Mr. Golygydd. Maddeuwch os yw dipyn yn blentynaidd.

D. I. J.

Earnscleugh, Otago Central, New Zealand.

BLAENGWRACH (Hen Lythyr).—Mri. Gol.—Credaf y bydd y llythyr a ganlyn o eiddo y Parch. Jenkin William yn un a ddarllenir gyda dyddordeb gan lawer o gyfeillion YR YMOFYNYDD. — R.J.J. — "Ty Park, Cilrhedyn, Newcastle Emlyn, Chwefror 10, 1890.—Anwyl Mr. Jones.—Derhyniais Post Card oddi wrthych gyda gofyniadau. Yn gyntaf, "Pa bryd y dechreuais fyned i Blaengwrach?" Yn mis Ebrill 16, 1865 y dechreuais gadw Ysgol Sul yno, yr hon fu'n llewyrchus iawn am amryw flynyddau, hyd nes y darfu i'r rhan fwyaf o'r rhai oedd yn yr ysgol wasgaru i wahanol fanau allan o'r lle, rhai i Hirwain, eraill i Gwm Rhondda, a thrwy hyny fe aeth yr ysgol i lawr. Ni fu dim llewyrch wedi hyn arni. Yr oeddwn i wedi bod yn myned i Flaengwrach cyn i fi fyned i lawr i aros. Wedi i fi fyned i lawr i aros dechreuwyd yr ysgol. Darfu i fi fyned i Flaengwrach unwaith bob pythownos hyd nes i fi ddod i lawr i'r wlad Ionawr 1880. Nid wyf yn gwybod yn gywir y flwyddyn bu farw E. Lewis (a.); ond yr wyf yn barnu mai ychydig amser oedd rhwng marwolaeth Mr. Lewis a'r amser y dechreuodd Mr. Lloyd (b.) weinidogaethu yn Mlaengwrach; ac mai ychydig oedd rhwng ymadawiad Mr. D. Jones (c.) a dechreuad gweinidogaeth Mr. Lewis. 'Rwyf yn cofio Mr. Jones yn pregethu unwaith yn yr Hen Dy Cwrdd, yn newid a'ch parchus dad. Yr wyf yn cofio ei fod yn symud yr hen blocyn oedd gan eich tad o dan ei draed, fel mai ychydig oedd yn y golwg o hono gyda'i ben. Ei destun oedd Rhuf. vi. 23, 'Canys cyflog pechod yw marwolaeth; eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd.' Nid oes dim ar y cof o'r bregeth. 'Rwyf yn cofio Mr. Lewis yn yr Hen Dy Cwrdd un nos. Yr oedd wedi dod ar dro i'r gweithfeydd ac yr oedd cwrdd ymresymu yn digwydd bod y noswaith hono, ac fe'i cymhellwyd ef i gymeryd rhan yn y gwasanaeth. Nid oes dim ar y cof pwy ran gymerodd; ond yr wyf yn cofio iddo gymeryd rhan yn y gwasanaeth. 'Rwyf yn cofio fod eich tad yn ei gynghori ef i fyned i Blaengwrach ac iddo yntau ufuddhau. 'Rwyf yn teimlo'n wan ar ol yr influenza; bum saith wythnos na fu tamaid o fwyd yn y geneu, dim [ond] llaeth a chawl

ffowlin. Peth hynod mod i'n fyw. Diolch am adferiad. Wele fi'n anfon *Register of Baptisms*, feallai y bydd yn help i chwi. Cofion parchus atoch chwi a'ch brawd a'r teulu.—J. WILLIAMS."——(a). Bu farw'r Parch. Evan Lewis, Cwmgwrach, Mehefin 28, 1851, yn 60 oed. (b). Aeth y Parch. Evan W. Lloyd yn olynydd i Mr. Lewis yn Mlaengwrach, Chwefror, 19, 1856. (c). Tebyg i'r Parch. David Jones ymadael a Blaengwrach yn 1847. Cawn iddo fedyddio Anne, merch John a Mary Rees, Glyncorrwg, Ionawr 24, 1847. Ceisiwyd gan y Parch. Titus Evans yn 1848, pan ar orphen ei amser yn Ngholeg Caerfyrddin, i ddyfod yn olynydd iddo. Dyma fel yr ysgrifena, Ionawr 20, 1848 :—"The audience sometimes as far as I understand is not in the plural number, * * * Mr. Jones preaches to him (Mr. Jevons) both in English and Welsh. * * * Even his own wife abandoned his meeting and followed her whim by joining another congregation." Mae Mr. Rees Rees, Cilgellisaf, yn ysgrifenu at ei fab-yn-nghyfraith yn Aberdar, Awst 13, 1840, fel hyn,—"Mr. David Jones is willing to risk his place at Rhymney for six months in order to supply at Blaengwrach." Aeth yno rywbryd yn olynydd i'r Parch. Thos. Rees, yr hwn a fu farw Hyd. 5, 1840. Cawn gofnod bedydd ganddo Medi 27, 1841. Aneglnr yw ei hanes ar ol 1847. Tybir iddo ymsefydlu fel math o siopwr yn Nghaerdydd. Gweler rai manylion pellach yn "Unitarian Students at P.C.C., 1796—1901."

Y MEDDWL.

Chwilgar fod, uchelgryf ei edyn,—
braidd
Gall mellt brysg ei ddilyn ;
Dawn yr enaid, neu ronyn
O ddelw Duw, yw meddwl dyn.

Y diweddar IFOR CWM GWYS.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN

O DAN OLYGIAETH

DR. E. PAN JONES, M.A.,

YN CAEL EI GYNORTHWYO GAN Y

Prifathraw W. J. EVANS, M.A., ac ereill.

Cynwysa hanes yr holl Fyfyrwyr, o bob Enwad, fu yn y Coleg o 1792 hyd 1899, gyda 271 o Ddarluniau Athrawon a Myfyrwyr.

Mae Byr-Gofiantau i'r oll o'r Myfyrwyr Undodaidd wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg gan y Prifathraw Evans. . .

284 o DUDALENAU CROWN QUARTO, WEDI EI RWYMO MEWN LLIAN HARDD } PRIS 7s. 6c.

(Cludiad yn rhad i bawb a ddanfono y swm hwn am dano o hyn i Rhagfyr 15fed, 1909.) . . .

Gyrer yr Archebion i'r Cyhoeddwyr—

Joseph Williams & Sons, Swyddfa'r 'Tyst', Merthyr.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School.

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Ben Evans & Co.

announce their

GREAT WINTER

Clearance Sale

IN ALL DEPARTMENTS,

commencing

Saturday, Jan. 8, 1910

and continuing daily throughout the Month.

SALE MOTTO:

Better Goods for the same Money or

The Same Goods for Less Money.

Either way means a Considerable Saving.

36 Page Illustrated Catalogue.

FREE ON REQUEST.

Ben Evans & Co., Ltd. Swansea.